www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 530
Ionawr
2025

# Codi Calon tra'n Codi Arian

Ar ddechrau blwyddyn newydd sbon dyma gyfle i ni ganolbwyntio ar yr hyn sy'n dda ym mro'r *Eco*. Yn y rhifyn cyntaf yma yn 2025 mi gewch straeon am bobl leol sy'n codi calonnau tra hefyd yn codi llawer o arian at achosion da.

Trowch at dudalen 4 i ddarllen hanes Sam Llewelyn Woodward sydd wedi dod yn Bencampwr Rasio Ffordd Cymru 2024, a hynny wedi cyfnod o salwch difrifol. Darllenwch am ei gamp yn codi arian drwy reidio beic o'r Waunfawr i Ysbyty Gobowen, er mwyn diolch am y driniaeth a'r gefnogaeth a gafodd. Mae cyfle i ninnau gefnogi Sam yn ei ymdrech i godi arian.

A fu yna deitl fwy addas i hunangofiant na *O na fyddai'n Haf o hyd*? Mae Haf Thomas o Lanrug wedi gweithio'n ddi-flino ers blynyddoedd lawer yn codi arian i elusennau pell ac agos - £58,259 a dweud y gwir. Mae hyn oll wedi ei gyflawni gyda gwên a chalon gynnes, ac mae gwên Haf yn heintus hogia bach! Trowch at dudalennau 8 a 26 i ddarllen rhagor am hunangofiant Haf, a'r noson lansio a fu yn Neuadd Gymunedol Penisarwaun ddechrau Rhagfyr.

Yn olaf, mae un arall o ferched y fro yn gweithio'n ddiflino drwy'r flwyddyn yn trefnu nosweithiau cymdeithasol a gigiau yn nhafarn Penbont, Llanrug, gyda phob un yn codi arian i wahanol elusennau ac achosion da. Dechreuodd Donna Marie Taylor drefnu'r nosweithiau yma er mwyn codi arian at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, ond gan iddynt fod mor boblogaidd mae Donna wedi cario ymlaen i drefnu, a diolch o galon iddi a'r tîm sy'n helpu am wneud hynny.

Cafwyd noson lwyddiannus arall ar nos Sadwrn 14eg Rhagfyr yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris, gan godi £553 tuag at MND.

Yn olaf, dymunwn flwyddyn newydd iach, hapus a llewyrchus i bob un o ddarllennwyr a chyfrannwyr *Eco'r Wyddfa*.











## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## Yn y rhifyn hwn:


- Holi Hwn a Holi Hon - tud. 7
- Dechreuad Partneriaeth Dyffryn Peris - tud. 11
- Llonni Mis Ionawr - tud. 14
- Chwilair Cyfarchion y Flwyddyn Newydd - tud. 19
- Cwis Chwaraeon 2024 - tud. 32




7

32

CWIS 2024

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

**£50** Goronwy Lewis, er cof am y teulu i gyd.
**£50** Er cof am Mrs J Eirlys Williams, Deiniolen oddi wrth y teulu (Caernarfon, Llanrug, Deiniolen a Rhiwlas).
**£20** Er cof annwyl iawn am Emma Bernard oddi wrth Mam, Dad a Louise.
**£5** Geraint a Bethan, er cof am eu mam, Jean Diana Jones, 1 Cynfi Terrace, Deiniolen.

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Chwefror | 10 Ionawr | 24 Ionawr |
| Mawrth | 14 Chwefror | 28 Chwefror |
| Ebrill | 14 Mawrth | 28 Mawrth |

# Llythyr



**Annwyl Olygydd**
Tybed oes rhai o'ch darllenwyr yn fyfyrwyr neu'n adnabod myfyrwyr hoffai ddysgu mwy am y sector Dysgu Cymraeg? Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg eisiau denu mwy o bobl ifanc i weithio fel tiwtoriaid ac yn cynnig ysgoloriaeth iddyn nhw fynychu cwrs 'Tiwtoriaid Yfory' yn ystod haf 2025.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng 7–18 Gorffennaf yng Nghaerdydd a bydd yn cynnwys gweithdai gyda thiwtoriaid profiadol, a chyfleoedd i arsylwi dosbarthiadau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.

Mae tiwtora hefyd wrth gwrs yn opsiwn gwych i fyfyrwyr sy'n chwilio am ychydig o arian pan fo'r esgid yn gwasgu. Gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc yng Nghymru neu tu hwnt wneud cais – 'dyn ni'n chwilio am bobl all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Mae 'na fwy o wybodaeth ar wefan y Ganolfan – **dysgucymraeg.cymru**

**Helen Prosser**
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**Annwyl ddarllenwyr**
Mae ymgyrch wedi ei lansio i godi arian ar gyfer 8 prosiect bwyd yn ardal Arfon, gan gynnwys prosiect ym mro'r Wyddfa.

Mae Siân Gwenllian AS yn lansio ymgyrch codi arian ar gyfer 8 prosiect bwyd yn ei hetholaeth.

Yn ôl y Trussell Trust, dosbarthwyd 1.4 miliwn o barseli bwyd brys i bobl a oedd yn wynebu anawsterau ariannol rhwng Ebrill 2023 a Medi 2024.

Gallwch roi drwy sganio'r côd QR sydd wedi'i atodi, ar wefan Siân Gwenllian AS, neu os ydach chi'n byw o fewn cyrraedd i swyddfa'r Blaid ar Stryd y Castell yng Nghaernarfon, gallwch roi gyfrannu eitemau i'r fasged. Bydd cynnwys y casgliad yn mynd i gynllun rhannu bwyd Porthi Dre.

Y llynedd codwyd dros £2,000 tuag at fanciau bwyd o amgylch yr etholaeth, yn cynnwys Cynllun Bwyd Cwm-y-Glo a Llanrug, a gobeithiwn y gallwn efelychu rhywfaint o'r llwyddiant hwnnw eleni, a darparu cyllid hanfodol i brosiectau bwyd ledled yr etholaeth.

Diolch rhag blaen am eich cyfraniad.
**Osian Owen**

**Annwyl Olygydd,**
Rwy'n gwirfoddoli i Cymru Versus Arthritis (CVA) sy'n rhan o Versus Arthritis, elusen Arthritis fwyaf y DU.

Mewn ymgais i gynyddu ei wasanaethau Cymraeg, mae CVA wedi creu grŵp cymorth Cymraeg ar-lein AM DDIM i oedolion sy'n byw gydag arthritis neu gyflwr cyhyrsgerbydol neu eu gofalwyr. Mae Versus Arthritis yn hapus i baratoi erthygl fer neu gallwch ddefnyddio'r hysbyseb atodedig.

Mae bron i 900,000 o bobl Cymru yn byw gydag Arthritis a gall daro pobl o unrhyw oed, hyd yn oed plant. Mae croeso i chi gysylltu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch.

Gyda diolch yn fawr i chi,
Elaine Edwards
Gwirfoddolwr Arweiniol
e.edwards@versusarthritis.org
www.versusarthritis.org

# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Llifogydd.** Rhannau helaeth o arfordir Môr y Canoldir yn Sbaen yn dioddef llifogydd nas gwelwyd erioed o'r blaen. Dros 200 o bobl wedi eu lladd, a'r gwaith clirio yn parhau. Protestiadau am ddiffyg rhybuddion gan yr awdurdodau, a'r brenin yn cael ei bledu efo pelenni mwd ar ei ymweliad â'r ardal.
- **Satan.** Bum mlynedd wedi i Deml Satanaidd yr Unol Daleithiau gael ei chydnabod fel eglwys grefyddol, mae dros 100 o drigolion Santiago yn Chile wedi gwneud cais i'r awdurdodau am gydnabyddiaeth gymharol i Deml Satanaidd Chile; hynny mewn gwlad ble mae dros hanner y boblogaeth yn cyfrif eu hunain yn Gatholigion.
- **Llosgfynydd.** Mae Lawotobi Laki-laki, llosgfynydd yn Indonesia wedi echdorri a lladd o leiaf 9 o bobl a llosgi dros 2,000 o gartrefi. Gorfodwyd dros 6,000 o bobl i adael eu cartrefi.
- **Palas Buckingham**.Rhan ddwyreiniol y palas yn cael ei agor i ymwelwyr o fis Ionawr hyd fis Mai. Bydd teithiau tywys awr a hanner o hyd yn cael eu cynnig am £90 yr un – punt y funud rhag ofn fod awydd gennych i roi mwy o arian ym mhoced y frenhiniaeth.
- **Darllen**. Ymchwil ar ran Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llythrennedd yn dangos fod y niferoedd o blant a phobl ifanc rhwng 8 oed a 18 oed yn darllen er pleser yn eu oriau hamdden wedi gostwng i 34% - y niferoedd lleiaf erioed ers i'r Arolwg gael ei gynnal.
- **Gwin.** Cynhyrchwyr gwin Ffrainc yn rhagweld y bydd cynnyrch 2024 bron i 29%  yn llai nac arfer, a hynny oherwydd tywydd anffafriol.
- **Marchnad**. Mae Marchnad Nadolig Eglwys Gadeiriol Caergaint, a gafodd hawl brenhinol i'w chynnal ar dir y Gadeirlan yn 1383 wedi ei 'hatgyfodi'. Cafodd ei gwahardd yn 1813 oherwydd ymddygiadau bygythiol a thrythyllwch.
- **Marchnad ar-lein**. Yn ôl arolwg gan gwmni Evri mae 55% o oedolion Prydain wedi prynu eitem ail-law ar-lein, a 47% wedi gwerthu eitemau.
- **Penblwydd**. Y Loteri Genedlaethol yn dathlu 30 mlynedd o fodolaeth. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae 7,400 o unigolion wedi ennill miliwn o bunnau.
- **Llŵ**. Mae Cyngor Tref Dawson City, Canada yn methu gweithredu ar unrhyw fater. Mae hynny oherwydd fod pedwar cynghorydd newydd yn gwrthod tyngu llŵ o ffyddlondeb i'r Brenin Charles, a hynny oherwydd camdriniaeth y frenhiniaeth yn y gorffennol o frodorion Canada. Mae'r pedwar yn gofyn am gael llunio llŵ newydd nad yw'n cyfeirio at y brenin.
- **Y Pab**. Mae'r Pâb Francis yn bwriadu ymweld â Corsica cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r ynys yn rhan o Ffrainc, a chredir mai dyma'r tro cyntaf mewn hanes i unrhyw Bab ymweld.
- **Ocsiwn**. Ym mis Ionawr bydd dros 700 o eitemau oedd yn eiddo i Eric Morecambe yn mynd ar werth. Maent yn cynnwys ei sbectol, a llythyrau oddi wrth wleidyddion fel Margaret Thatcher a chyd-ddigrifwyr fel Tommy Cooper a Ronnie Barker.
- **Pêl-droed**. San Marino yn ennill o 3 gôl i 1 yn Liechtenstein. Dyma'r tro cyntaf yn eu hanes iddynt ennill gêm ryngwladol gystadleuol oddi cartref.
- **Etholiad**. Yn dilyn llwyddiant Trump i ddod yn Arlywydd UDA am yr eilwaith, mae gwerthwyr tai yn yr Eidal wedi derbyn rhai cannoedd o e-byst gan etholwyr sydd am ddianc rhag ei arlywyddiaeth. Mae rhai yn trefnu "teithiau prynu eiddo", ac yn danfon Americanwyr o amgylch de'r Eidal i weld ble'r hoffent fyw. Yn Sardinia cafwyd dros 35,000 o geisiadau am brynu eiddo ar yr ynys – y mwyafrif ohonynt gan Americanwyr.
- **Chwerthin**. Mae banana wedi ei gludo i wal gyda thâp wedi gwerthu am bron i 5 miliwn o bunnau i brynwr o China. *'Comedian'* yw testun y gwaith, a dywedodd yr arlunydd, Maurizio Cattelan mai "chwerthin am ben y farchnad" oedd ei fwriad. Llwyddodd.


Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllfa Leol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein
Palas PRINT
10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

VERSUS ARTHRITIS GRŴP CYMORTH
Grŵp Cymraeg AR-LEIN
(11yb - 12.30yp) trwy Teams
Dydd Iau 1af bob mis
Mae ein cyfarfodydd grŵp cymorth yn rhad ac am ddim ac yn agored i bob oedolyn sydd ag arthritis neu gyflwr MSK. Dewch i rannu profiadau ac awgrymiadau, gwneud ffrindiau newydd a rhoi cynnig ar weithgareddau. Croeso i bawb!
Cysylltwch: walessupport@versusarthritis.org
CYMRU VERSUS ARTHRITIS
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

# WAUNFAWR

Blwyddyn newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco,  gyda diolch arbennig i'r dosbarthwyr a'r rhai sy'n cyfrannu at y golofn drwy'r flwyddyn efo straeon bach a mawr, mae pob un yn cael eu gwerthfawrogi!

**Diolchiadau**

Dymuna Pat Parry, Ffridd Felen a'r hogia ddiolch o galon i bawb a anfonodd gardiau a chyfraniadau er cof am Raymond ac am yr ymweliadau a'r galwadau ffôn oedd yn  gysur mawr iddi. Hefyd diolch i Gwenda Griffith am ei gwasanaeth ar yr organ yn yr amlosgfa ac i'r Parch. Anna Jane Evans am ei ffyddlondeb i Raymond dros y 9 mis diwethaf ac am y gwasanaeth hyfryd yn yr Amlosgfa.

Diolch i chi Pat am anfon ychydig o hanes bywyd Raymond i ni:

'Brodor o Lanrug oedd Raymond yn byw gyda'i fam a'i dad a'i frawd Meurig. Nhw oedd yn cadw siop Regent House am flynyddoedd. Fe aeth i'r fyddin yn syth o'r ysgol am ddwy flynedd a bu'n gweinyddu yn yr Almaen. Wedyn fe aeth i weithio i'r Cyngor Sir lle cyfarfu a'i wraig Pat. Penderfynodd fynd i wneud Cwrs Dysgu i Goleg y Drindod Caerfyrddin ac yna bu'n dysgu yn Ysgol John Bright, Ysgol Conwy ac yna Ysgol Segontium am oddeutu 30 o flynyddoedd ble bu'n hapus dros ben.

Bu'n aelod o Seindorf Arian Llanrug ers pan oedd yn 10 oed nes oedd o yn ei 50au. Ei brif ddiddordeb oedd ffermio yn Ffridd Felen. Aeth o erioed i'r ysgol mewn car – fan bob amser er mwyn cael mynd i Farchnad Llangefni ar ôl ysgol ar Ddydd Mercher i brynu lloi. Roedd Mrs Jones, Ysgrifenyddes yr Ysgol yn teithio hefo fo bob dydd ac fe glywodd hi hogia dre yn dweud un bore "Mae'r Hill Billies yn dwad."

Roedd yn dad balch i Michael a Gwyn ac yn daid i Jackie, Paul, Matthew, Emma a Jonny, a heb anghofio ei or-wyresau Ivy ac Eva.

Ar ddiwedd ei oes fe gafodd ofal arbennig gan Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri, Cartref Plas Pengwaith, Llanberis a Chartref Gofal Arbennig Ceris Newydd ym Mangor ble bu farw ar 8 Tachwedd, 2024, yn 90 oed.'

**Plaid Cymru Waunfawr**

Cinio Gŵyl Ddewi – cynhelir ein cinio Gŵyl Ddewi eleni ar Chwefror 28ain yn y dafarn Waunfawr, a bydd Dafydd ac Elinor Wigley yn ymuno efo ni.  Bydd côst y cinio yn £12 y pen a yn cynnwys cawl a phwdin o'ch dewis.

Anfonwch enwau ymlaen llaw i Iola os gwelwch yn dda, bydd yn noson ddifyr o hel atgofion ac edrych ymlaen i'r dyfodol!

**Dymuniadau gorau**

Mae Siân, Stad Tŷ Hen wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond braf clywed dy fod yn gwella erbyn hyn Siân.

**Gwyrfai Gwyrdd**

Mae tîm Gwyrfai Gwyrdd wedi bod yn cael dau ddiwrnod o hyfforddiant er mwyn sefydlu Clwb Ynni Lleol Gwyrfai a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2025. Bydd aelodau'r Clwb yn gallu cael trydan gwyrdd a lleol hyd at 25% yn rhatach na phrisiau trydan arferol.

I ddatgan eich diddordeb yn y clwb ewch at energylocal.org.uk/cy/group/53 a chofrestrwch yn uniongyrchol neu gysylltu drwy ebost gyda **dafydd.davies@gwyrfaigwyrdd.cymru**

(Diolch i Dafydd a gweddill y tîm am yr holl waith caled gyda'r cynllun yma)



**Disgybl y Flwyddyn – cicbocsio**

Llongyfarchiadau mawr i Huw Greasley ar ennill gwobr disgybl y flwyddyn yn ei wersi cicbocsio MPMA yn ddiweddar. Mae'n rhaid dy fod wedi gweithio'n galed iawn i ennill y wobr yma Huw, ac y byddi'n ennill llawer mwy i'r dyfodol.

**Sam Llewelyn Woodward – pencampwr Cymru!**

Mae Sam, Y Foel, Dol Erddi yn codi arian ar hyn o bryd i ddwy elusen sy'n agos at ei galon – Young Lives v Cancer, ac Ysbyty Gobowen. Bydd yn reidio beic o Waunfawr i Ysbyty Gobowen ac yn ôl mewn un diwrnod sef 140 milltir. Tipyn o gamp meddech chi – ond mae hon yn siwrnai gyfarwydd iawn i Sam, mewn car ac ar feic.

Ym mis Ionawr 2023, ag yntau'n brentis saer coed 18 oed, daeth Sam o hyd i lwmp ar ei goes – a chafodd y newyddion bod ganddo ganser prin. Erbyn Mawrth 2023, roedd wedi cael llawdriniaeth i dynnu'r tiwmor ac wedi goroesi sepsis difrifol, profiad gwirioneddol ddychrynllyd iddo fo ac i'r teulu i gyd.

Roedd Sam eisoes yn aelod o Glwb Beicio Egni Eryri, ac roedd yn awyddus i fynd nôl ar ei feic cyn gynted ag y gallai. Bu'n llwyddiannus yn cael ei ddewis i camp hyfforddiant Tîm PB a threulio amser yn Girona, Sbaen. Ar hyd y daith, mae wedi profi llwyddiant anhygoel – gan ennill nifer fawr o rasus a'r uchafbwynt – Pencampwr Rasio Ffordd Cymru 2024.

Mae cyflawni hyn mewn cyfnod mor fyr yn dilyn salwch difrifol wir yn arbennig.

Yn fuan wedi i Sam fynd nôl i reidio beic ar ôl ei driniaeth, gofynais i Sam fyddwn ni yn cael stori i'w rhoi yn Eco'r Wyddfa ganddo  "na, ddim tan dwi wedi ennill rwbath" oedd ymateb Sam – a does neb balchach na fi o gael caniatâd Sam i ddweud yr hanes rŵan!

**Os am gefnogi Sam, ewch ar dudalen facebook gofundme – Sam's fundraiser.**

Mae Sam bellach yn feiciwr llawn amser, ac yn ariannu ei hun, felly os oes noddwyr yn darllen hwn – be am roi help llaw i'r hogyn lleol yma?







# Ysgol Waunfawr

Blwyddyn Newydd Dda i holl deuluoedd yr ysgol a chymuned Waunfawr.

**Ffair Nadolig**
Cafwyd ffair hynod o lwyddiannus eto eleni a'r pwyllgor cyfeillion wedi bod yn brysur tu hwnt. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u haelioni.

**Urdd**
Bu i'r tîm genethod gyrraedd y rownd gynderfynol yn y gystadleuaeth pêl-rwyd yn ddiweddar. Yr oedd hwn yn dîm eithaf newydd ond gydag ambell i unigolyn wedi cael profiad o chwarae mewn tîm yn flaenorol. Diolch i Aila Kay am ysgwyddo'r gwaith fel capten y tro hwn. Ymlaen i'r twrnament nesaf fis Ionawr.




**Taith Gerdded**
Diolch i Tom Gwynedd am ein tywys ar daith gerdded yn yr ardal leol yn ddiweddar. Yr oedd y plant wedi gwirioni cael siocled poeth ar gopa Moel Eilio a chael dod lawr Cefn Du a dychwelyd i'r ysgol. Yr oedd pawb yn hynod o flinedig yn dychwelyd, ond wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Diolch i Tom am ei ofal ohonom.



**Myfyrwyr TAR**
Yr ydym wedi croesawu dau hyfforddai Prifysgol Bangor atom ar brofiad dysgu. Dymuniadau gorau i Mr Liam Roberts a Ms Cleo Fychan yn ystod gweddill y flwyddyn.

**Ynni Deg**
Diolch yn fawr i Osian a Gwenno am ddod i'r ysgol i wneud gwaith ar ynni yn ddiweddar. Cafodd pawb wneud cerbyd gan ddefnyddio ynni o'r balwnau- pawb wedi gwirioni a dysgu llawer.





**Rhieni a Chyfeillion**
Nid pob ysgol sydd yn ddigon ffodus o fod yn cael cefnogaeth cymdeithas rhieni, ond yn sicr mae Cyfeillion Ysgol Waunfawr yn hynod o weithgar a chefnogol. Mae'r ysgol wedi elwa yn fawr o'r haelioni yn ystod y flwyddyn gan gynnwys prynu ffrâm ddringo/parc antur, talu am fws panto a phrynu offer cyfrifiadurol i'r ysgol. Yr ydym yn ddiolchgar dros ben ac yn gwerthfawrogi'r ymdrech a roddir i'n cynorthwyo drwy greu amrywiaeth eang o weithgareddau megis disgo, noson torch Nadolig ac ati. Mae croeso i unrhyw un gysylltu gyda syniadau newydd ar sut i godi nawdd ar gyfer yr ysgol, neu os yn ymwybodol o grantiau ariannol sydd ar gael ar gyfer ysgolion er mwyn cyfoethogi profiadau a gweithgareddau.








# Harri Tŷ'n Cae Newydd

## gan Mois

Un fyddai'n galw heibio i'n cartref yn y Waunfawr ers stalwm oedd Dafydd Glyn Jones; hen gyfaill i fy nhad. Roedd gan Dafydd Glyn stôr o straeon gwreiddiol, yn enwedig am rai o hen gymeriadau'r Weun; a difyr fyddai eistedd o gylch y tân yn gwrando arno'n eu hadrodd. Un cymeriad fyddai Dafydd Glyn yn hoff o sôn amdano oedd Harri Tomos, neu Harri Tŷ'n Cae Newydd fel byddai pawb yn yr ardal yn ei adnabod.

Dyfynnaf Dafydd Glyn yn adrodd ychydig o'i hanes.

"Hen lanc di-briod oedd Harri Tŷ'n Cae Newydd a rhyw greadur digon cymhleth ar y gora. Byddai gan Harri bob amsar ei atebion disymwth a phigog pan feiddai rhywun ofyn rhwbath iddo na fyddai'n ei blesio. Profiad digon cyfarwydd fyddai clywad Harri'n rhegi, hyd yn oed yng nghwmni blaenor neu rai o ferchaid crand y fro.

Yn ystod y dau-ddegau dwi'n ei gofio fo. Mi fydda fo'n brysur o gwmpas yr ardal yn gneud rhyw fân ddyletswydda fel torri gwair, ffensio, codi cloddiau ac agor ffosydd ac ati. Mae gen i go reit glir o weld Harri'n pladuro ysgall yn ei drôns 'long john' ar bnawn crasboeth o Awst, â'i drowsus yn hongian ar weiran bigog y clawdd.

Stori dda yw honno am D.J.Lewis y gweinidog yn ei gyfarch ar y lôn, a'r hen Lewis yn gofyn, 'Wel Harri, oes 'na ryw newydd?'

Harri'n atab yn swta, 'Newydd drwg Mistar Lewis; newydd drwg iawn. Mae'r diafol wedi marw!' 'Rargian, Harri bach, mi dybiwn i mai newydd da ydi bod y diafol wedi marw!'

'Naci, Mistar Lewis; newydd drwg, achos fydd dim angan rhei fatha chi wedyn yn na fydd!'

Mi glywis rhywun yn sôn amdano'n torri gwair hefo pladur yn y cae tu ôl i ardd y gweinidog, a fynta'n gofyn i'r gweinidog dros y clawdd, 'Dudwch i mi Mistar Lewis, ydi o'n wir fod y Bod Mawr wedi cymryd saith dwrnod i neud yr hen fyd 'ma?'

'Wel, ydi Harri, yn wir pob gair.'

'Wel, biti ar y diawl na fasa fo wedi cymryd wyth, a gneud yr hen gae 'ma yn wastad tra roedd o wrthi hi!'

Un y byddai Harri'n gneud amball orchwyl iddi oedd yr hen wreigan Jên Wilias, Pant Defaid. Gwraig weddw oedd Jên Wilias, yn cadw rhyw ddwy fuwch a hannar dwsin o ieir a gwydda ac ati. 'Rhen Jên yn gymeriad o'r hen drefn, ac mor dduwiol â'r un erioed ac yn mynychu'r oedfaon yn y capal a chyfarfodydd noson waith yn rheolaidd ar waethaf y tywydd.

(*Yn 1926, urddwyd Jane Williams â Medal Gee am ffyddlondeb i'r Ysgol Sul yng nghyfarfodydd yr Eglwysi Rhyddion yn Abergele.)*

Roedd Jên Wilias angan cael teilo'r cae wrth y tŷ ar gyfar porfa i'r gwartheg, ac roedd wedi gofyn i Harri neud y gwaith. Ac felly y bu. Rhyw fora Sadwrn oedd hi, a Harri Tŷ'n Cae Newydd a minna i'w ganlyn – wedi cyrraedd Pant Defaid efo'r drol yn barod i ddechrau teilo. Minna'r adag honno'n llefnyn pymthag oed yn tywysur ceffyl, a Harri yng nghefn y drol yn fforchi'r tail yn docia. Beth bynnag, mi ddoth yn amsar cinio, ac roedd yr hen Jên Wilias wrth y giât yn gweiddi bod y cinio'n barod. Harri'n rhoi'r drol i bwyso ar ei llorpia, a rhoi'r ceffyl ym meudy Jên Wilias â ffîd go dda o wair iddo fo. Dyma gyrradd y tŷ, a be oedd 'na i ginio ond lobsgows. Ew, am ogla da lond y gegin! Rhen Jên yn tendiad a ffysian dros ein 'sgwydda a deud, 'Dowch, bytwch fel tasa chi adra!' Wir, doeddan ni ond wedi cael dechra byta nad oedd yr hen wraig yn syth ym mhen Harri.

*Dyma damaid o'r sgwrs rhwng y ddau, yn ôl Dafydd Glyn.*

JW: Harri! pryd fuost ti yn y capal ddwytha?
*(Harri â'i drwyn yn y bowlen yn llyrpian y lobsgows yn farus. Rhen Jên yn trio wedyn.*

JW: Wel Harri, glywis di neu beidio? Pryd fuost ti yn y capal ddwytha?
*(Harri yn sythu'n ei gadair a throi i wynebu'r hen wraig.*

H: Blwyddyn i Sulgwyn dwytha os mynnwch chi!

JW: Brenin Mawr! Blwyddyn i Sulgwyn dwytha ddudis di, a fuost ti ddim yno fyth wedyn?

H: Naddo myn diawl!
*Rhen Jên yn closio'n nes ato.*

JW: Wel Harri, be wnaeth i ti fynd i'r capal flwyddyn i Sulgwyn dwytha a pheidio mynd ar gyfyl fyth wedyn?

H: Mi ddeuda'i wrthach chi pam Jên Wilias, gan fod John Robaitsh Caerdydd yn pregethu. Fuodd o ddim yn y Weun 'ma wedyn, ac felly des inna ddim i'r capal!

JW: O! Mi roedd John Robaitsh Caerdydd yn dipyn o ffefryn gen ti felly Harri?

H: Oedd yn tad, y gora o'r blydi lot ohonyn nhw! Roedd o'n pregethu yng Nghroesywaun ar y nos Sadwrn ac yn y Weun ar y dydd Sul, a mi es inna i'r ddau gapal i wrando arno fo.

*(Byddai cyfarfodydd y Sulgwyn yn cael eu cynnal ar y Sadwrn yn ogystal â'r Sul yr adeg honno.)*

Ydach chi'n ei gofio fo'n pregethu, Jên Wilias?

JW: Brenshiach annwl dad ydw, 'i gofio fo'n iawn siwr!

H: Dach chi'n cofio rhai o'i bregatha fo, a lle yn y Beibl roedd ei destun a ballu?
Jane Wilias yn pendroni.

JW: Aros di rŵan i mi gael trio cofio. Wel, y, erbyn meddwl, nac ydw. Wel, ddim ar y funud fel 'na te. Rargian does 'na gymaint o amsar wedi bod ers pan fuodd o yma ddwytha, a chymaint o bregethwyr erill wedi bod yma ar ei ôl o! Wyt ti'n cofio nhw Harri?

H: Ydw debyg iawn!

*Ar hyn, dechreuodd Harri adrodd darnau o bregethau'r Parchg John Roberts, gan godi ei freichiau ac ysgwyd ei gorff yn grynedig, gan feddwl tybed os byddai rhai ohonynt yn dod i gof yr hen wraig. Ond ni ddaeth yr un ohonynt.*

H: A dach chi'n cofio'r un ohonyn nhw, Jên Wilias?

J W: Wel, y, nac ydw i wir. Ac fel dudis i, mae 'na ormod o amsar wedi bod ers pan fuodd o yn y Weun 'ma ddwytha. Rargian, does bosib i mi drio cofio pob pregath yr holl bregethwyr fuodd yma dros yr holl amsar debyg?

*Harri yn rhoi pwniad i Dafydd Glyn dan y bwrdd efo'i ben-glin ac edrych ym myw llygaid yr hen wraig.*

H: Wyddoch chi be, Jên Wilias? Yr wthnos dwytha, mi es â'r hen geffyl 'cw i'r efail i gael pedola, ac mi oedd yr hen gi defaid 'cw yn dŵad efo mi bob cam wrth fy sodla, a'r ci oedd y cynta mewn i'r efail o flaen y ceffyl a minna. Gyda mod i'n cyrradd y drws, dyma'r hen gi allan yn ei ôl â'i gynffon rhwng ei goesa, a lawr y lôn o'r golwg ag o. Wedi i mi fynd mewn i'r efail, mi welwn yr hen of yn brysur wrth yr engan yn morthwylio'r haearn, â mwg a sbarcs yn codi o'i gwmpas o. Wrth edrach o nghwmpas, dyma fi'n sylwi fod gin yr hen of gi, a bod hwnnw'n cysgu'n braf dan y fegin a ddim yn cymryd pwt o sylw o be oedd yn mynd ymlaen o'i gwmpas. A wyddoch chi be, Jên Wilias? Fedrai ond eich cyffelybu chi rŵan, eich bod chi'n debyg ar y diawl i gi'r hen of. Mi roedd hwnnw wedi arfar hefo tinc mwrthwl a mwg a sbarcs, ac mi rydach chitha wedi arfar gymaint efo crefydd nes bod chi'n cymryd dim diawl o sylw ohono fo!"

*Ac meddai Harri, yn ôl Dafydd Glyn.*
"Welis i 'rioed neb wedi ei syfrdanu gymaint â'r hen Jên Wilias y diwrnod hwnnw. Roedd yr hen greaduras yn gegrwth, a'i llygaid fel platia! Wannwl, fues i 'rioed mor falch o gael mynd nôl i'r cae. Naddo, myn cythgan'i!"



# Holi Hwn a Holi Hon

**Enw a ble ydach chi'n byw?**
Tony Elliott ac mi ydw i'n byw ar gyrion pentref Deiniolen.
**O ble ydach chi'n dod yn wreiddiol?**
Cefais fy magu yng Nghyffordd Llandudno.
**Hoff le yn y fro, a pham?** Fy nghartref ar lethrau Moel Rhiwen. Mwynhau'r golygfeydd godidog, yn enwedig y machludoedd dros y môr, yng nghwmni fy ngwraig.
**Eich hoff air Cymraeg?** Gwladgarwch.
**Be sy'n eich cadw'n brysur?** Ein hwyrion a'n hwyresau, fy ngwraig, Pwyllgor Pentra, darllen a barddoni.
**Be sy'n eich gwylltio?** Pobl sydd ddim yn dangos unrhyw barch o gwbl i'n cenedl, ein hiaith na'n hanes.
**Be sy'n eich gwneud yn hapus?** Clywed plant bach y teulu a'r rhai yn y gymuned yn chwarae'n hapus yn y Gymraeg. Nhw ydy dyfodol ein cenedl fach arbennig ni. Darllen Eco'r Wyddfa wrth gwrs a gwylio tim pêl-droed Lerpwl yn ennill.
**Oes gennych chi uchelgais i'r dyfodol, i chi eich hun neu i'r fro?**
Dwi'n rhy hen i fod ag uchelgais i fi fy hun, ond mi ydw i'n dyheu i weld ein pentref a bro'r Eco yn dal i arddel y Gymraeg, gan ei defnyddio a'i charu.



















# LLANRUG

Gobeithio i bawb fwynhau seibiant dros y Nadolig a chael cyfle i ymlacio gyda theulu a ffrindiau. Dymuniadau gorau am flwyddyn newydd fendithiol i'r holl ddarllenwyr, gan edrych ymlaen at dderbyn eich straeon difyr yn ystod 2025.

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Howyn a Mair Jones, Gardd y Rhos. Mae'r ddau wedi dathlu eu Penblwydd yn 70 oed - Howyn ganol Tachwedd a Mair ddechrau Rhagfyr. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

**Capel y Rhos - Oedfaon mis Ionawr 2025**
5ed Ionawr - Parch John Pritchard, Llanberis
12fed Ionawr - Mr Richard Parry Jones, Caernarfon
19eg Ionawr - Y Gweinidog, y Barch. Nerys Anne Griffiths
26ain Ionawr - Parch. Huw Pritchard

**Hafan Elan**
Aeth criw Hafan Elan draw i Ganolfan Arddio Pentre Berw i fwynhau eu cinio Nadolig eleni. Yn dilyn y cinio bu cryn siopa yno a phawb wedi mwynhau'r pnawn.

Maent am gael mynd i Galeri i fwynhau cyngerdd Andre Rieu cyn y Nadolig. Bydd ganddynt hefyd gyngerdd Tonic gyda Rhys Meirion. Cyn mynd byddant yn cael cinio Nadolig bach yn y Ganolfan. Diolch unwaith eto i Beverley, ei mam Cath ac Elizabeth am drefnu'r cyfan drwy'r flwyddyn.

**Merched Y Wawr**
Estynnwyd croeso cynnes i'r aelodau gan y Llywydd, Bethanne Williams.

Llongyfarchwyd Megan ac Olwen ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Braf hefyd cael llongyfarch Heulwen a Deiniol sy'n nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bach – Llew, i Mari a Gwyn.

Cafwyd cyfle i longyfarch Idwal Williams ar ei lwyddiant yn yr Ŵyl Cerdd Dant.

Diolch arbennig i Ann Lloyd Griffith am greu baner i ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu cangen Llanrug. Roedd Ann yn un o aelodau cyntaf y gangen.

Diolch i Bethanne, Anwen, Ann a Mary am ein cynrychioli yn y 'Cwis Hwyl' ym mis Tachwedd.

Cynhelir Cwrs Crefft y Gogledd ar 25 Ionawr ym Maentwrog. Cysylltwch â Meirwen am fwy o wybodaeth.

**Taith i Lerpwl**
Bydd cyfle i aelodau Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr fynd ar daith i Lerpwl 27 - 29 Mehefin. Byddant yn aros yng ngwesty Mercure, Twr Atlantic. Gari Wyn fydd y tywysydd ar y dydd Sadwrn a bydd cwis dan ofal Llion Williams gyda'r nos. Bydd angen talu blaendal erbyn 1 Chwefror.

Catrin Roberts o Flaenau Ffestiniog oedd y siaradwr gwadd. Cyflwynodd wybodaeth am ei chynnyrch – Eli maeth natur. Roedd ganddi eli gwahanol ar gyfer pob math o gyflyrau, ac enwau aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos wedi eu rhoi arnynt.

Diolchodd Bethanne i Catrin am rannu gwybodaeth am rinweddau planhigion a chyflwyno geirfa newydd i ni.

Diolchwyd i Haf, Amanda a Sharon am baratoi paned.

**Profedigaeth**
Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i deulu Edward Edwards (Eddie), gynt o Lanrug a Maestryfan, Bangor a fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Tachwedd yn 82 mlwydd oed. Priod annwyl i Shirley a thad cariadus Lorraine ac Edward. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll.

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Berwyn ac Arwyn Roberts, Ffordd yr Orsaf fydd yn dathlu eu Penblwydd yn 50 oed ar noswyl Nadolig. Dymuniadau gorau i chi eich dau, a mwynhewch y dathlu gyda theulu a ffrindiau.

**Cyhoeddi Hunangofiant**
Ar yr 2il o Ragfyr, yn neuadd Ysgol Gymuned Penisarwaun, cynhaliwyd noson i lansio hunangofiant Haf Thomas, Pen Cae – *O na fyddai'n Haf o hyd!*

Yn y gyfrol, mae Haf yn edrych yn ôl ar ei bywyd ac yn rhannu'r profiadau niferus sydd wedi dod i'w rhan, a'r hyn y mae wedi ei gyflawni ar hyd y blynyddoedd. Roedd y neuadd yn orlawn ym Mhenisarwaun, a chafwyd noson hwyliog yng nghwmni'r Prifardd Ifor ap Glyn, sydd wedi golygu'r gyfrol, ac mae'r diolch a'r gwerthfawrogiad iddo yn fawr am ei arweiniad gwerthfawr a gofalus. Roedd darlleniadau o'r gyfrol hefyd gan Jeni Lyn Morris a Lowri Ifor.

Cafodd Haf hefyd ambell i syrpreis ar y noson! Un o'i hoff ganeuon Nadolig ydy *Mary's Boy Child*, a chafwyd perfformiad arbennig ohoni yn y Gymraeg gan Gôr Law yn Llaw dan arweiniad Anwen Edwards, a datganiad bendigedig ar y biano o'r unawd Gymreig 'O Na Byddai'n Haf o Hyd' gan Annette Bryn Parri. Noson i'w thrysori heb os.

Diolch o waelod calon i bawb am bob cefnogaeth. Fe fu'r daith o baratoi'r gyfrol yn felys iawn.








# CWM Y GLO

Llongyfarchiadau i Huw Gwynn, Gwêl Elidir ar ei lwyddiant diweddar yn y byd rhedeg. Enillodd ras 5k Abergele a daeth yn 3ydd yn hanner marathon Bangor. Mae hefyd wedi cymryd rhan yn Marathon Casnewydd, hanner Marathon Caerdydd a llawer o ddigwyddiadau eraill. Ar ôl graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, a dilyn cwrs Meistr mewn Darlledu Chwaraeon ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mae bellach yn ôl adref ac yn gweithio i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd yn brysur yn ymarfer dros y gaeaf ar gyfer marathon Manceinion, yn ogystal â chwarae pêl droed i dîm Llanrug. Pob lwc gyda'r rhedeg, a'r pêl-droed, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.



# Ysgol Llanrug

**Lori Ni**
Chwith gweld Lori Ni am y tro olaf yr wythnos diwethaf. Diolch yn fawr am yr holl ymweliadau a gafwyd dros y blynyddoedd ac am wasanaeth gwych i ni fel ysgol bob amser.





**Sgwrs dan y Lloer**
Daeth Elin Fflur a chriw rhaglen heno draw i'r ysgol ar ôl clywed ein bod yn gwneud sioe Nadolig wedi ei selio ar raglen Sgwrs o dan y lloer. Roedd pawb wrth eu boddau yn cyfarfod ag Elin ac Elin ni wedi cael tips ganddi!



**Bocsus Esgidiau**
Diolch i'r holl rieni sydd wedi llenwi bocs 'sgidiau ar gyfer Teams4U. Bydd 45 bocs yn mynd draw i blant yn nwyrain Ewrop.






**Pêl-rwyd**
Genethod blwyddyn 5 a 6 wedi cael amser gwerth chweil draw yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar.



**Criw talentog**
Bu y criw yma yn perfformio yng nghyngerdd Nadolig rhanbarth Caernarfon. Diolch i wasanaeth cerdd ysgolion am roi profiad arbennig i'r plant.



**@discoverdwr**
Daeth Catrin o Dŵr Cymru yma i'r ysgol i gydweithio gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 a'r sut i arbed dwr. Mae gwneud pethau bychain yn mynd i'n helpu edrych ar ôl ein hamgylchfyd.



**Sioe Cyw**
Sioe wirioneddol wych draw yn y Galeri yn ddiweddar. Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 wedi mwynhau canu a symud gyda Cyw a'i ffrindiau wrth iddynt ddarganfod anrheg pwy oedd ar goll.






# DEINIOLEN

**Eglwys Crist, Llandinorwig**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Crist, Llandinorwig am 6.00pm, Noswyl Nadolig, 24ain Rhagfyr. Bydd croeso cynnes i bawb i ymuno â ni yn y gwasanaeth arbennig yma i ddathlu Gŵyl y Geni.

**Gair gan y Cynghorydd**
Diolch i bawb oedd yn bresennol yng Ngwasanaeth Sul y Cofio eleni. Cafwyd cefnogaeth dda, fel yr arfer. Roedd pob mudiad wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth. Diolch yn fawr i griw y Band, a hefyd y rhai a oedd yn stiwardio'r traffig. Diolch yn fawr hefyd i'r Parchedig Naomi Starkey am arwain y gwasanaeth.

Diolch i staff y Cyngor am dwtio y tu ôl i'r Siop yn ddiweddar.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cofion cynnes
Elfed

**Diolchiadau**
Gair o ddiolch er côf am mam, Jean Diana Jones, 1 Cynfi Terrace, Deiniolen a fu farw ar 15fed Gorffennaf 2024. Diolch i bawb am eu cydymdeimlad a'u geiriau caredig a rhoddion. Diolch. Geraint a Bethan.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Margaret Owen, 31 Hafod Oleu, a fu farw yn ddiweddar yn 91 mlwydd oed. Gwraig annwyl y diweddar Ernest, a mam gariadus Sandra a Stephen. Colled drist i'w theulu oll.
Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu Diana Mary Davies, Stryd Newton, Llanberis, gynt o Swyddfa'r Post, Deiniolen. Priod annwyl y diweddar Clifford, mam a mam yng nghyfraith Nia ac Aled. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll.

**Merched y Wawr**
Daeth criw ohonom a'r gymuned yn ehangach at ein gilydd ar gyfer noson o hyfforddiant Cymorth Cyntaf/CPR yn Nhŷ Elidir nos Lun, 2il Rhagfyr. Trefnwyd y noson gan Eirlys gyda chymorth Ambiwlans Sant Ioan yng Ngogledd Cymru, a chawsom ein harwain gan Sophie drwy'r camau pwysig os mai ni yw'r person cyntaf i weld rhywun sydd newydd ei daro'n wael neu gael ei anafu. Teithiodd hi gryn bellter ar draws y Gogledd ar noson wlyb ar gyfer y sesiwn, chwarae teg iddi. Dangosodd i ni hanfodion y Diffibrileiddwyr sydd i'w gweld yn gyffredin mewn canolfannau cyhoeddus hefyd. Cafodd y digwyddiad ei hysbysebu yn lleol, ac roedd yn braf gallu gwneud yn fawr o'r cyfle hwn, gydag aelodau o Bwyllgor Clwb Pêl-droed Deiniolen yn ogystal â Carwen Cory-Griffiths, Cydlynydd newydd prosiect Caban Cynfi yn ymuno â'r aelodau i fanteisio ar yr hyfforddiant gwerthfawr hwn.

**Gwesty Aduniad**
Braf oedd gweld dau o drigolion y pentref yn ddiweddar ar raglen Gwesty Aduniad ar S4C, Sioned Evans a'i merch Elin Dafydd yn cofio am eu tad a'u taid, Dafydd Evans. Perfformiodd Elin yn fendigedig yn ystod y rhaglen, gan ail greu moment bwysig i'w mam.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Emyr Gibson ar ei lwyddiant diweddar yn ennill Gwobr Aur yn noson Gwobrau Gofal Cymru 2024 yng Nghaerdydd. Emyr oedd yr enillydd yng nghategori Sefydliad Syr Bryn Terfel am hyrwyddo'r celfyddydau ym maes gofal cymdeithasol. Gwych iawn.

**Blwyddyn Newydd Dda**
Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Deiniolen a Chlwt y bont, gan obeithio am flwyddyn o iechyd a hapusrwydd i chi i gyd.

**Pwyllgor Pentref**
Braf iawn unwaith eto eleni oedd gweld y goleuadau Nadolig ymlaen ar y Stryd Fawr, a diolch i Dewi a Rhydian am eu gwaith unwaith eto. Daeth torf dda at ei gilydd i weld Brehnines y Carnifal a rhai o'i gosgordd yn rhoi'r goleuadu'n mynd ymlaen tra'n mwynhau cyflwyniad gan Seindorf Arian Deiniolen. Roedd blas da ar y gwin poeth *(mulled wine)* gan Menna, Wellington a'r pitsas gan Pizza Llan. Roedd Louise yn Caffi EB wedi paratoi paned a theisennau a chrefftau i'r plant. Gwych! Diolch i bawb a fu'n rhan o'r trefnu.











# Dechreuad Partneriaeth Dyffryn Peris

Un o 8 amcan trosfwaol Cynllun Gweithredu Hinsawdd Cymunedol GwyrddNi a gynhyrchwyd gan drigolion y fro yn 2023 oedd;

"Edrych i sefydlu Partneriaeth Gymunedol i gydlynu gweithredu cymunedol, canfod cyllid, gwrando ar y gymuned, cynllunio a hybu ac ysgogi gweithredu, gweithio gyda busnesau, cyd-gynhyrchu newid cadarnhaol a mynd i'r afael â newid hinsawdd."


Dyna i chi lond ceg! Her uchelgeisiol ac angenrheidiol i sicrhau ffyniant y fro hynod hon yng ngwyneb heriau lluosog, yn lleol a rhyngwladol. Mae 'na beth wmbrath o waith gwych yn mynd rhagddo gan wirfoddolwyr a gweithwyr brwd, ac ychwanegu gwerth i hynny fu y nod.

Ym mis Ionawr eleni, galwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa Arwyr, Llanrug er mwyn dal y syniad yma i fyny i'r golau. Gwahoddwyd y cynghorau cymuned lleol, grwpiau a mudiadau di-elw ac unrhyw un arall oedd â diddordeb. Roedd y caffi yn orlawn!

Clywsom am flaenoriaethau'r gymuned a gasglwyd gan Gyngor Gwynedd yn eu hymgynghoriad Ardal Ni 2035. Datblygu Llwybrau, Gwella Edrychiad, Tai addas, Trafnidiaeth Gyhoeddus, Cefnogi Busnesau, Twristiaeth Cynaliadwy, Cynlluniau i Bobl Ifanc, Gweithgareddau Cymraeg, Gwella Cydweithio, Sgiliau Cymunedol.

Clywsom hefyd am amcanion GwyrddNi ac am rwydwaith newydd sy'n hybu perchnogaeth a hunan-benderfyniad cymunedol yng Ngwynedd - Cymunedoli Cyf.

Roedd cyflwyniad i waith Antur Stiniog dros y 15 mlynedd diwethaf yn ysbrydoledig. Maen nhw wedi troi heriau gor-dwrisitaeth ar ei ben a chreu incwm ohonno sydd wedi hadu nifer o brosiectau cymunedol eraill. Bachodd y syniad o greu mudiad 'ymbarel' fel Cwmni Bro Ffestiniog i gefnogi a chysylltu mudiadau parod a gallu creu prosiectau



newydd yn nychymyg y rhai fu'n bresennol.

Erbyn diwedd y cyfarfod, roedd syniadau o ffrydiau incwm a phrosiectau newydd wedi eu cofnodi, opsiynau cyllido wedi eu hadnabod, gofod swyddfa posib ar gael a chynigion i hybu'r syniad trwy'r Papur Bro arbennig hwn yr ydych chi'n ei ddarllen rwan hyn!

**Datblygu cynlluniau**
Dros y 7 cyfarfod dilynnol eleni, mae nifer o opsiynau wedi eu harchwilio, grwp llywio wedi ei sefydlu, cynllun busnes wedi ei ddatblygu, swydd ddisgrifiad ar gyfer Rheolwr Datblygu wedi ei ysgrifennu a threfniadau cyllido'r swydd honno trwy nawdd Cynghorau Cymuned Llanberis a Nant a Llanrug a Cwm-y-Glo a Chwmni Ynni Padarn Peris yn cael eu mireinio.

£8,000! Diolch i gyllido gan Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU a Grymuso Gwynedd, llogwyd gofod cydweithio yn Caban, Brynrefail am gyfnod o 6 mis. Rhoddodd hyn ofod swyddfa ac ystafell gyfarfod i'r gwaith o ddatblygu Partneriaeth Dyffryn Peris, a chafwyd sgyrsiau achlysurol dros goffi a chyfle i gynnal digwyddiadau Cymraeg a denu gwirfoddolwyr.

Bu i'r gronfa hon hefyd dalu am wasanaeth ymgynghorol gan arbenigwr Datblygu Cymunedol - Meleri Davies. Roedd dysgu o'i phrofiad hi o ddatblygu Partneriaeth Ogwen dros y ddegawd diwethaf yn amhrisiadwy, a'r cynllun busnes drafft a gynhyrchwyd yn hynod gynhwysfawr.

Diolch hefyd i holl wirfoddolwyr y Grwp Llywio am rannu o'u profiadau ac arbenigeddau cyfoethog. Ecolegwyr, sylfaenwyr a chyfarfwyddwyr sawl mudiad cymunedol, cynghorwyr sir a chymuned, cyn- benaethiaid gwasanaethau tai, saeri, artistiaid a mwy!

**Beth nesaf?**
Diolch i waith diwyd a gofalus y Grwp Llywio cychwynnol, mae trefniadau cyfreithiol, ariannol a chynllun busnes bron i gyd yn eu lle. Beth sydd ei angen nesaf ydy dod a'r Bartneriaeth yn FYW!

Perthynas ydy Partneriaeth yn y bôn, ac fel unrhyw berthynas, mae angen gofal a chariad ac ymdrech barhaus o bob ochr i'w chynnal. Nid oes un i arwain ac eraill i ddilyn! Wrth ddod i adnabod ein gilydd yn well mewn digwyddiadau achlysurol, a chefnogi ymdrechion ein gilydd, bydd y gwaith o ddatblygu'n cymunedau yn dod a mwy o wobrwyon i bawb, yn y pendraw.

Bydd digwyddiad cyhoeddus yn y flwyddyn newydd (amser a lleoliad i'w gadarnhau) i ddod a thrigolion a busnesau at ei gilydd i gael cyfle i sgwrsio, i rannu o'u profiadau, ac i ddathlu'r gwaith caled sy'n digwydd ar draws ein cymunedau. Byddwn hefyd yn hysbysebu swydd Rheolwr Datblygu Partneriaeth Dyffryn Peris er mwyn codi gwynt i'r hwyliau o ddiffrif.

Os oes gennych chi ddiddordeb ymuno gyda'r Grwp Llywio, byddwn yn croesawu sgwrs gyda chi.

Mae £10,000 o bunnoedd wedi ei sicrhau ar gyfer cynnal Asesiad Anghenion Tai Lleol ac i asesu modelau, eiddo a chyllido posib ar gyfer tai dan arweiniad y gymuned. Bydd cyfarfodydd yn cael eu galw yn y flwyddyn newydd i glywed barn a syniadau trigolion ynglyn â hyn er mwyn mynd i'r afael a'r argyfwng tai mewn modd rhagweithiol a chadarnhaol.

Os hoffech chi gael gwybod am ddigwyddiadau pellach - anfonwch ebost at peris@gwyrddni.cymru i gael eich ychwanegu i'r rhestr dosbarthu.

## LLANDDEINIOLEN

**Eglwys Sant Deiniol**
Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig ar Sul cyntaf yr Adfent. Llawenydd oedd gweld cynulleidfa luosog yn bresennol a'r Eglwys bron yn llawn. Cyn dechrau'r Gwasanaeth ger y fynedfa roedd Pat Reid yn croesawu pawb gyda detholiad o garolau ar y Recorder gan greu awyrgylch Nadoligaidd hyfryd.

Cafwyd datganiad ganddi hefyd yn ystod y Gwasanaeth i gyfeiliant yr organ.

Cyflwynwyd darlleniadau o'r Ysgrythur a cherddi Nadolig gan Jonno Jones, Naomi Woods, Doris Adlam. Ceridwen Williams a Norman Rowlands.

Arweinwyd y cyfan gan y Barchedig Ganon Naomi Starkey ac hefyd traddododd neges amserol.

Ymunodd y gynulleidfa mewn nifer o Garolau. Yr organydd oedd Lowri Prys Roberts a gymrodd ran hefyd gyda Douglas Jones i





gyflwyno datganiad o Garol Blygain. Mae ein diolch yn fawr i bawb a fu yn paratoi ar gyfer y dathliad hwn a'r rhai fu'n addurno yr Eglwys a threfnu y lluniaeth Nadoligaidd ar y terfyn pryd y cafodd pawb gyfle i gymdeithasu mewn awyrgylch lawen.

**Gwasanaeth Cristingl**
Cynhelir y gwasanaeth nesaf ar **5ed Ionawr** am 3.00pm

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlad**
Am yr ail dro o fewn mis cafwyd colled yng nghymuned Seion. Cydymdeimlwn ag Audrey Roberts a'r teulu o 2, Cae Rhôs ar golli gŵr, tad a thaid sef Adrian Roberts. Am sawl blwyddyn bu Adrian yn gweithio yn ffatri Ferodo.

**Codi Calon**
Mewn cyfnod o ddioddef ar sawl lefel, byddwn i gyd yn gobeithio fel unigolion, gwlad a byd, y daw rhyw elfen o wir ysbryd y Nadolig i godi calonnau eleni. Cafwyd adlewyrchiad o hynny yn achos y criw bach ffyddlon â frwydrodd i gynnal y fflam yn Eglwys Llanddeiniolen. Mor agos y bu hi i ddrysau yr eglwys hanesyddol hon gau. Drwy ffydd y criw bach ffyddlon, llwyddwyd i ail-drefnu oedfaon. Cysur iddynt felly oedd gweld torf niferus yn eu cefnogi yn eu Gwasanaeth Carolau/ darlleniadau ddechrau'r mis. Rwyf yn fwy na bodlon i gynnwys rhestr oedfaon y mis yn fy rhestr oedfaon yn yr Eco. Cysylltwch. Adeste Fideles.

**Gwahoddiad**
Estynir gwahoddiad i'r ardal ymuno â ni i wasanaeth cyd-enwadol y Cymun, fore Nadolig yn y Cysegr. Bydd y gwasanaeth dan ofal y Parch. Nerys Griffith yn dechrau am 9.30am.

**Gwellhad Buan**
Bu nifer o'r ardal yn derbyn gofal neu driniaethau yn yr ysbytai lleol a thu hwnt yn ddiweddar. Dymunwn y gorau iddynt am wellhad buan. Yr un yw'n dymuniadau i nifer gynyddol o gyn-drigolion yr ardal sydd bellach mewn cartrefi gofal neu gartrefi preswyl.

**Clwb Cerdded Bethel**
Dan anogaeth Morfudd a Hefin Thomas daeth 12 o gerddwyr ynghyd ddechrau'r mis i ailgydio yn y patrwm o gyd-gyfarfod. Y man cyfarfod oedd y maes parcio ger Pen-llyn. Ar ddiwrnod sych yng nghanol y drycinoedd, cerdded ymlaen i Gwm-y-Glo, yna'r ddringfa i ben Clegir. Oedi yno i fwynhau hynny o olygfeydd oedd ar gael. I lawr yr allt wedyn draw i Lanberis a chyfle am baned a lluniaeth ysgafn. I gwblhau y cerddediad aethom ymlaen ar hyd yr hen reilffordd yn ôl i'r moduron ym Men-llyn. Diolch i Mair ac Emrys am fod yn dywysyddion y tro yma gan gyd-rannu rai o hanesion yr ardal ar y daith.

Roedd pawb wedi mwynhau yr ail-ymgynnull ac os bydd y tywydd yn ffafriol yna gobeithir dychwelyd i'r hen drefn o gerddediadau mwy rheolaidd yn y flwyddyn newydd. Y cyswllt-bobl ar gyfer y trefniadau yw Morfudd a Hefin Thomas. Mae croeso i chwi ymuno yn y gweithgaredd cymdeithasol yma.

**Oedfaon Ionawr**
Bethel: 5/1 - Parch. Cledwyn Williams; 19/1 - Dennis Davies.
Cysegr: 5/1 - Parch. Hugh Pritchard; 12/1 - Gweinidog; 19/1 - Richard Parry Jones; 26/1 - Parch. Dafydd Coetmor Williams

**'Gwasanaeth' Swyddfa'r Post**
Dyma bwnc llosg iawn yn ddiweddar. O golli ein gwasanaeth lleol yma ym Methel, yna Llanrug neu Gaernarfon yw'r dewis. Heb sylwi, dyna atodi pris ychwanegol at gostau y post, fel arian bws neu barcio. Fel mae'n hysbys, mae'n ymddangos bod bwriad cau y Swyddfa Bost ar y Maes yng Nghaernarfon. Dyna amddifadu ardal eang o wasanaethau. Mae'n ymddangos mai bwriad y Swyddfa Bost yn ganolog yw cynnal eu 'gwasanaeth' gan ddefnyddio lleoliad busnes lleol, e.e. mae swyddfa Bangor yn rhan o siop Smiths. Yn ein hardaloedd gwledig nid yw pawb yn gallu cysylltu neu siopa ar lein fel y mae'r banciau, y post a gwasanaethau eraill yn gymryd yn ganiataol.

Mewn ymateb, mae fan symudol y Swyddfa Bost yn ymweld â maes parcio y neuadd Goffa bob bore Gwener rhwng 9.00am a 9.45am.

**Enwi**
Mae'n ymddangos fod cytundeb bellach ar enwi y stâd o dai gyferbyn a'r Cremlyn. Braf cyhoeddi mai enw uniaith Gymraeg ddewiswyd sef MAES GWNDWN. Drws nesaf i'r stad mae tŷ annedd Tyddyn Gwndwn. Beth yw ystyr gwndwn, tybed? Bydd y stâd tai ar dir Llwyn Bedw. A therm amaethyddol yw gwndwn.

Y ffurf gwreiddiol yw gwyndwn, ond yn y cyswllt yma nid yw 'gwyn' yn cyfateb i'r ystyr Seisnig 'white'. Daw diwedd y gair 'dwn' o'r hen Gymraeg yn golygu 'croen y ddaear'. Yr un tarddiad a 'ton'.

Mae'r term gwyndwn/gwndwn yn dod o gyfnod ble byddai tir yn cael ei aredig bob yn ail flwyddyn. Wedi'r aredig y tueddiad oedd rhoddi hadau gwair yn hytrach na chnydau ar y tir. Pan fyddai'r hadau yn egino yna byddai'r llysdyfiant – y gwair gan amlaf – yn oleuach na'r pridd, yn fwy 'gwyn' fel petai. O ddilyn y dull yma o drin y darn tir yna fel arfer tir pori a gaed. Ym mron i 50 mlynedd o fyw ym Methel bellach, fel tir pori- defaid a gwartheg – yn unig y cofiaf ddefnydd o'r cae. A dyna brofiad rhai o bobl hŷn y pentref bum yn eu holi hefyd.

**Cyfarchion**
A dyna rhan gyntaf o flwyddyn yr Eco wedi bod. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r ffyddloniaid sy'n ddosbarthwyr selog i'r Eco. Teg nodi fod pawb sydd yn tanysgrifio ym Methel yn cael yr Eco ar stepan drws. Mae rhifynnau i'w cael yn y Caffi hefyd. Diolch hefyd i'r sawl sydd yn danfon adroddiadau rheolaidd o'r gwahanol fudiadau yn y pentref. Apeliaf i glybiau a chymdeithasau i ddanfon adroddiadau draw i mi neu'n uniongyrchol i'r papur cyn y dyddiad cau pob mis - ecorwyddfa@gmail.com Y mae hanes yn dangos fod y cyfrannu yma yn hysbysebiad i'r mudiadau ac yn aml yn denu aelodau neu nawdd newydd i'r coffrau. Mae hefyd yn gofnod i'r genhedlaeth nesaf o weithgaredd y pentref. Bydd y rhifyn nesaf yn ymddangos ddiwedd Ionawr. Cadwch luniau gweithgareddau'r Nadolig wrth law.

Ar ran y Golygyddion a chriw ffyddlon yr Eco dymunaf Nadolig Llawen i chwi a'ch teuluoedd, ac edrychwn i flwyddyn arall o gyd-weithio yn yr ardal arbennig hon.

**Caffi'r Bedol**
Dyma'n sicr un o lwyddiannau cyfnod diweddaraf y pentref. Dan adain Menter Gymunedol Bethel mae wedi llwyddo i adlewyrchu y teitl. Bu sicr 'menter' yn adlewyrchu y criw gweithgar gafodd y weledigaeth, ac mae'r elfen 'gymunedol' hefyd yn addas. Rhoddodd le i bobl gyfarfod dros baned. Bu bwydlen apelgar. Cafwyd gweithgareddau amrywiol addas yn ystod gwyliau yr ysgol. Cafwyd nosweithiau cymdeithasol, rhai yn ffordd o godi arian i elusennau lleol. O'r datganiad yma, gwelir pam y mae y 'pwyllgor' gweithgar yn apelio am wirfoddolwyr i ddod atynt i gynnal y momentwm arbennig yma. Chwilio am syniadau fydd yn elwa'r gymuned sy'n ysbrydoli y criw yma.

Yn y flwyddyn newydd bydd y 'Siop' yn agor. Dyma fentro, ond pwysig yw bod yn bwyllog. Chwi gofiwch i blant yr ysgol lunio holiadur am ddymuniadau ar gyfer cynnwys y siop. Daeth da-da a cacennau yn amlwg yn newis y to iau. Penderfyniad y 'pwyllgor' oedd sefydlu siop 'anghenion sylfaenol' fel bara, llefrith, wyau… Wedi i'r Carlton gau, cyflenwir y bara gan gwmni Becws Môn. Bydd yr wyau hefyd

**Nadolig 2024**
Fe ddaw y seren eleni – a'r Oen
yn rhodd, er rhyfelgri
ein Nadolig anniddig ni;
ni weinwyd Gŵyl y Geni.



## Menter Cymunedol Bethel

Mae'n bleser gan Fenter Cymunedol Bethel groesawu Angharad Price i Gaffi'r Bedol, Bethel ar Nos Iau, 16eg Ionawr, 2025 am 7:00pm.

Dyma gyfle gwych i sgwrsio a thrafod ei nofel Nelan a Bo (soniwyd am y nofel yn rhifyn diwethaf yr Eco) sydd wedi ei leoli ym Methel

Gallwch gael mwy o fanylion am y noson yn Nghaffi'r Bedol. Croeso cynnes i bawb.



yn dod gan gysylltiad lleol. Bydd cyfle i chwi roddi eich ‘ordors’ i mewn dair gwaith yr wythnos am y nwyddau hyn. Hefyd bydd cyfle i unrhyw unigolyn lleol sy’n ‘cynhyrchu’ gwahanol nwyddau gael llwyfan yn y siop i arddangos a gwerthu eu cynnyrch. Dyma gyfle gwych i hybu menter lleol.

Bydd cryn edrych ‘mlaen at 2025, felly. Gyda chydweithrediad parod cwmni Delwedd yna bydd logo newydd y fenter yn ymddangos, yn ogystal â gwefan. Yr e-bost i gysylltu a chadw i fyny â’r digwyddiadau yw bethelmentergymunedol@gmail.com.

Yn amlwg bu cyfle i gyfarfod Sion Corn, ac roedd yntau yn canmol plant Bethel am eu haml gyfraniad dros y flwyddyn. Fe fydd y caffi yn cau dros yr Ŵyl, a bydd y gweithwyr yn troi’n ôl yn famau prysur. Gobeithio y byddent hwy yn cael tendans a mwynhau y Nadolig. Nadolig Llawen iddynt, ac maent hwythau yn dymuno yr un cyfarchion I’r cwsmeriaid ffyddlon dros y flwyddyn. Diolch, ac ymlaen â’r fenter.












**Merched y Wawr**

Yng nghyfarfod Mis Tachwedd caswom y fraint o groesawu Tesni Calennig i’n plith. Merch ieuanc hynod o dalentog sydd efo’i ffrind Elin Angharad Jones, wedi sefydlu Crefft Migldi – Magldi yn hen efail Brunswick yng Nghei Llechi Caernarfon. ‘Roedd yn ddiymhongar iawn wrth ddangos ystod eang ei gwaith o fodrwyau arian a oedd wedi eu creu i gyd fynd a cân yr oedd Casi Wyn wedi ei hysgrifennu, i fwrdd 6 troedfedd o hyd wedi ei wneud yn gywrain o dderw a haearn.

Fe ddechreuodd greu gemwaith arian pan yn ddwy -ar- bymtheg, cyn mynd ymlaen i Brifysgol Brighton i astudio cynllunio 3D a chrefft, yno fe daniwyd ei diddordeb mewn gwaith gofaint. Mae ei gwaith wedi ei ysbrydoli gan hanes a straeon gwerin, gan ymchwilio yn fanwl i ystyr y straeon, ac y mae’n adlewyrchu deunyddiau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i wrthyrchau cain i’w defnyddio heddiw. Roedd y bwrdd a’r celfi yr oedd wedi eu creu



at ei gradd yn adlewyrchu stori Blodeuwedd, a’r llestri yn seiliedig ar garthen Gymreig. Mae hi hefyd ynghanol comiswn i greu giatiau ar gyfer llwybrau’r pysgotwyr ym Meddgelert, ac yn gwneud pob dim efo llaw - heb ddefnyddio periannau o gwbwl. Dyma dalent anhygoel, ac mae modd mynd lawr i’r efail yn Cei Llechi i’w gweld yn gweithio; y mae modd gweld ei gwaith yn Oriel Môn ac yn Amgeueddfa Cymru. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Liz Watkin.

Gwnaed y baned gan Anne Elis, Nora Parry a Mary Wyn Jones. Enillwyd y raffl gan Gwenan Roberts

Ar ddechrau y cyfarfod fe anfonodd Liz y llywydd ein cofion at Nan Rowlands ar gyfer ei thriniaeth yn Ysbyty Walton, gan hefyd longyfarch ei mab Ifan am godi £2,600 at ymchwil cancr Cymru wrth gwblhau hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar . Bydd ŵyr Falmai, Sam yn casglu arian i Ysbyty Gobowen a elusen ar gyfer pobl ieuanc gyda cancr, wrth seiclo o Waunfawr i Gobwen fel gwerthfawrogiad o ofal arbennig a gafodd ar ôl cael diagnosis o sarcoma 3 blynedd yn ôl.

Ar ôl gwau tua 120 o bwmpenni a’u gwerthu yng Nghaffi’r Bedol ar gyfer Calan Gaeaf – fe lwyddodd Rhian Hughes i godi £506 at ymchwil cancr y fron – gwych iawn.

Anfonwyd llongyfarchiadau at rai fu’n llwyddiannus yn yr Ŵyl Gerdd Dant, sef Begw wyres Eryl a Carwyn mab Lynnwen.

Edrychwn ymlaen at gael darllen “Nelan a Bo” llyfr newydd Angharad Price (merch Mair) sydd wedi ei leoli yn ardal Bethel.

Llongyfarchiadau i dîm Bethel 1 (Mair Read, Mair Price, Anita a Gwenan) a ddaeth yn 3ydd drwy Gymru yn Cwis Hwyl, gan ddiolch i tîm Bethel 2 (Liz, Ann Lewis a Deilwen) am gystadlu. Er fod y cwis rhanbarthol yng ngofal Jen ac Anne Elis, rhaid pwysleisio na chafwyd dim ffafriaeth! Cafwyd noson hwyliog a chroeso cynnes gan gangen Groeslon.

Braf oedd gweld llun tîm Bethel, a fu’n buddugol yn bowlio 10 rhanbarth Arfon yn y Wawr.

Am fanylion pellach gweler https://www.mywbethel.org

# Llonni mis Ionawr

Mae dechrau'r flwyddyn yn gallu bod yn gyfnod digon llwm a digalon; mae hi'n dywyll, gwlyb ac oer a phres yn brin ar ôl Dolig! Cofiwch ei bod hi'n hollol normal i deimlo ychydig yn ddigalon yn mis Ionawr a Chwefror. Mae yna resymau biolegol pam mae llawer o bobl yn teimlo'n isel ac yn brin o egni yn ystod y misoedd tywyll. Mae deall ei fod yn ymateb naturiol yn help.

Dyma syniadau i geisio codi calon yn y cyfnod diflas cyn y gwanwyn.

1. Mae symud a chadw'n heini yn helpu iechyd meddwl da, ac mae ymarfer corff yn ffordd wych o guro'r felan ym mis Ionawr gan fod ymarfer corff yn rhyddhau endorffinau sef hormonau yn eich corff sy'n gwneud i chi deimlo'n hapus. Mae hi'n anoddach cadw'n heini dros y gaeaf a'r tywydd ddim o'n plaid, ond ceisiwch ddod o hyd i wahanol weithgareddau sy'n bosib i chi.
2. Mae sgwrsio gyda ffrindiau a theulu yn gallu eich llonni wrth rannu gofid, rhoi gwên ar ein hwynebau, ac os mai nhw sydd angen eich cefnogaeth chi, mae hi'n deimlad braf i allu eu helpu hefyd.
3. Gall yr hyn rydyn ni'n ei fwyta effeithio ar y ffordd rydyn ni'n teimlo. Bydd bwyta prydau llai yn rheolaidd drwy gydol y dydd ac osgoi bwydydd sy'n uchel mewn siwgr gael effaith gadarnhaol ar eich hwyliau a rhoi mwy o egni i chi. Hefyd, peidiwch ag anghofio bwyta digon o ffrwythau a llysiau, mae fitamin D yn hollbwysig dros y gaeaf.
4. Mae cael ychydig o haul yn cynyddu eich serotonin ac yn eich helpu i frwydro yn erbyn Anhwylder Affeithiol Tymhorol (SAD). Mae'n hawdd iawn eistedd yn y tŷ neu'r gwaith a gwylio'r diwrnod yn diflannu drwy'r ffenestr, felly ewch allan pryd bynnag y gallwch, hyd yn oed os am ychydig funudau – mae'n gwneud byd o les.
5. Os ydych chi'n dioddef o'r felan yn mis Ionawr, beth am hel atgofion a meddwl am atgofion da. Efallai gallwch edrych ar hen albwm lluniau allan neu ddidoli lluniau oddi ar eich ffôn i'w hargraffu a chreu albwm newydd.
6. Mae'n wirioneddol bwysig cynllunio pethau i edrych ymlaen atyn nhw. Beth am drefnu mynd am baned gyda ffrind bnawn Sadwrn, neu ddiffodd y sgrin a phobi cacen neu chwarae gêmau bwrdd fel teulu ar bnawn dydd Sul. Mae cynllunio gwyliau yn ffordd wych o guro'r felan mis Ionawr; er bod y tywydd yn ddiflas, gall meddwl am wyliau haf fod yn hwb!

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 5ed o Ionawr, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, am 2.00pm. Ar y 19eg o Ionawr, bydd Oedfa dan arweiniad y Parchedig Gwenda Richards, hefyd i gychwyn am 2.00pm.

**Penblwydd Arbennig**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Owie Williams (Rhes Glan Gwna) wedi iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 90 ddiwedd Rhagfyr. Dyma lun o Owie gyda Gweinidog y Capel, y Parchedig Nerys Griffiths, ei nith Glenda a'i merch Catrin.






**Bin baw ci**
Efallai fod rhai ohonoch eisoes wedi sylwi fod y pentref wedi cael bin baw ci ychwanegol - mae wedi ei leoli ar lôn gefn y pentref ger yr arwydd 20 m.y.a. (tuag at Llain Meddygon).

**Capel Caeathro - Yma o hyd**
Yn ystod 2025, bydd 200 mlynedd ers agoriad Capel cyntaf y pentref. Y safle oedd tai 'Hen Gapel' heddiw ac, am hanner canrif cyn hynny, roedd ysgolion Sul a phregethau yn cael eu cynnal yn adeiladau'r ardal.

Bydd o leiaf tri digwyddiad i ddathlu'r achlysur arbennig hwn. Yn gyntaf, bydd gennym gyngerdd yng Nghanolfan y Capel ar ddydd Sul y 23ain o Fawrth am 6.00pm. Yn ystod yr haf, bydd gennym Oedfa'r Dathliad, a tuag at yr hydref y bwriad yw cynnal sgwrs ar hanes yr Eglwys a Chapel yn y pentref.

**Clwb Garddio Caeathro**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd, prynhawn dydd Mawrth, y 12fed o Dachwedd a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd Rhiannon Owen.

Ein siaradwr gwadd oedd Neil Alcock o Feithrinfa Seiont.

Mae'r feithrinfa yn tyfu oddeutu miliwn a hanner o blanhigion yn flynyddol ac yn cyflenwi meithrinfeydd garddio ym Mhrydain a thramor. Maent yn tyfu planhigion mewn compost di-fawn ers 10 mlynedd.

Soniodd Neil fod mwy o alw am blanhigion i dyfu mewn potiau. Un planhigyn poblogaidd mewn gerddi yn y saithdegau oedd peithwellt (*pampas grass*). Mae'r feithrinfa wedi datblygu un bach fyddai'n addas ar gyfer tyfu yn y pridd neu mewn potyn.

Daeth Neil ag amrywiaeth o blanhigion sydd wedi eu datblygu yn y feithrinfa i ddangos i ni.

Diolchwyd i Neil am sgwrs hynod o ddifyr gan Rhiannon Owen.

Enillydd y gystadleuaeth o dusw o flodau, dail ac aeron yr Hydref oedd Dianne Doughty.

**Carolau**
Cafwyd noson braf o ganu Carolau o gwmpas y goeden ar sgwar y pentref eto cyn y Nadolig. Mae'r arian a gasglwyd wedi mynd tuag at gronfa'r banc bwyd yng Nghaernarfon a carem ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Diolch fel arfer hefyd i griw Seindorf Arian Llanrug am y gerddoriaeth a'r arweiniad.





# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebos neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6pm tan 7.30pm Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** - yn y Ganolfan Prynhawn Dydd Iau, 2 - 4 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r Haf, i fynnu at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r Gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10yb o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12. Croeso cynnes i bawb ymuno a ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Capel Coch**
**Hen stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw Hen Stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi Gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r Stampiau yn y Cyntedd neu i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntef, unrhyw Sul.

**Oedfaon Ionawr a Chwefror**
*Ionawr*
5 Dr Dafydd Iwan – 10.00am
12 Oedfa Dechrau'r Flwyddyn 10.00am
19 Dr Huw Tegid Roberts – 2.00pm
26 Parch Anna Jane Evans – 2.00pm

*Chwefror*
2 Parch Bryn Williams – 4.00pm

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener. Oherwydd gweithgareddau yn yr Eglwys yn ystod y Nadoig, ni fydd yr arddangosfa i'w gweld tan mis Ionawr.

**Datganiad**
Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen i bawb o'm ffrindiau, gan na fyddaf yn anfon Cardiau eleni, yn dilyn marwolaeth fy chwaer Awen ddechrau Rhagfyr. Gwyneth Parry

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau'r Nadolig a mis Ionawr

24 Rhagfyr, 3pm - Gwasanaeth Wrth y Preseb. Croeso i bawb o bob oed.
Dydd Nadolig, 10am - Cymun Bendigaid
29 Rhagfyr, 11am - Boreol Weddi
5 Ionawr, 11am - Cymun Bendigaid
12 Ionawr, 11am - Boreol Weddi
19 Ionawr, 11am - Cymun Bendigaid
26 Ionawr, 11am - Boreol Weddi

22 Rhagfyr, 2pm - Cyngerdd Nadolig Band Deiniolen a Chor Dyffryn Peris

**Enillwyr Clwb 100**
Mis Medi - 1) Sharon Griffith, 2) Sheila Roberts 3) Peter Williams
Mis Hydref - 1) Kevin Griffith, 2) Sharon Griffith 3) Owain Rees Jones
Mis Tachwedd - 1) Suzanne Fisher 2) Martin Wood 3) John Gareth Jones

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau'r Nadolig a mis Ionawr
Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24, 11pm - Cymun Bendigaid
29 Rhagfyr, 9:30am - Cymun Bendigaid

5 Ionawr – 9:30am – Boreol Weddi
12 Ionawr – 9:30am – Boreol Weddi
19 Ionawr – 9:30am – Boreol Weddi
26 Ionawr – 9:30am – Cymun Bendigaid

Hefyd, cynhelir gwasanaeth bob bore Mawrth am 9:30am

**Ymddiheuriadau**
Yn rhifyn mis Rhagfyr fe hysbyswyd y Ffair Nadolig ar 23 Rhagfyr a'r Carolau Nadolig ar 30 Rhagfyr yn hytrach na mis Tachwedd.

# BRYNREFAIL

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadu i Catrin Heledd Williams, merch Carys a Dafydd Meini Gleision ar ei dyweddiad ac Ilan Wyn Davies, mab Sue a'r diweddar Bryan Davies (Yogi) o Fethel (Bala gynt). Llongyfarchiadau mawr gan y ddau deulu.

**Cyfarchion a Chofion**
Dymuniadau gorau i'r holl drigolion dros Ŵyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cofion at bawb na fu'n dda eu hiechyd yn ystod y flwyddyn aeth heibio ac am garedigrwydd teuluoedd a ffrindiau. Chwith oedd deall yn ddiweddar am ymadawiad Mair Doran (Evans) gynt o 1, Trem Eilian yn Southport a John Foulkes Roberts, Caernarfon (Bronallt gynt) ar 13eg Tachwedd, y ddau yn gyfoedion i lawer ohonom yn y pentref. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys a'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

Rydym yn falch o ddeall fod Dafydd Ellis, Gweledfa erbyn hyn gartref o'r Ysbyty yn dilyn y ddamwain a gafodd ac yn gwella yn foddhaol.





**Sefydliad y Merched**
Croesawyd pawb i gyfarfod mis Tachwedd gan ein llywydd Pat Jones. Gan ei bod yn Noson Bingo Nadolig roedd pawb wedi derbyn manylion llythyr y mis drwy'r post. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd er gwaetha'r tywydd garw. Anita Long oedd yn gyfrifol am weithgaredd y noson a threuliwyd amser pleserus a hwyliog a phawb yn mynd adref gydag anrheg.

Ddydd Iau, 7fed Tachwedd, cynhaliwyd Te Prynhawn ac Arddangosfa Flodau. Cafwyd cefnogaeth dda i drefnu y byrddau a gosod amrywiaeth arbennig o flasusfwyd a chacennau a fwynhawyd yn fawr gan bawb o'r aelodau. I ddiweddu'r prynhawn cafwyd Arddangosfa Flodau. Arddangosodd Pat Jones dri threfniant chwaethus ac amrywiol a werthfawrogwyd gan bawb.

Erbyn hyn byddwn oll, gobeithio, wedi mwynhau ein Cinio Nadolig Blynyddol ar Ragfyr 19eg yn y Felin Pontrug ac yn edrych ymlaen am gyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd pan groesewir Debbie ein siaradwraig wadd i drafod Cadw'n Heini er ein diogelwch.

# Ysgol Penisarwaun



Ymweliad Dr Arfon

**Ymweliad gan Doctor Arfon**
Fel rhan o'n thema 'Ydi pob arwr yn gwisgo clogyn?', daeth Doctor Arfon i'r dosbarth i siarad am ei gwaith ac i ddangos yr offer pwysig mae hi'n ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Cawsom ddysgu sut i roi bandej am ein teganau meddal, a defnyddio stethosgop. Diolch yn fawr i Doctor Arfon am brynhawn diddorol iawn.



Ymweliad Gwasanaeth Tan

**Ymweliad gan y Gwasanaeth Tân**
Daeth Gwyn Roberts o'r gwasanaeth tân i'r ysgol i siarad am ei swydd fel diffoddwr tân. Cawsom gyfle i wisgo'r wisg arbennig mae diffoddwyr tan yn ei wisgo, a cafodd pawb gyfle i ddefnyddio'r bibell hwyl. Dyna beth oedd hwyl! Diolch yn fawr i Gwyn am ei amser, cawsom brynhawn gwerth chweil.

**Cystadleuaeth Addurno drws**
Cymrodd disgyblion dosbarth Bryn Hyfryd ran mewn cystadleuaeth addurno drws gan Ysbyty Eryri. Gweler y llun o'r drws yn Ward Padarn wedi ei addurno ar gyfer y gystadleuaeth.


Dyddiad cau
31/01/2025

CYNGOR GWYNEDD

TENDR AGORED

Cytundeb Torri Gwair Gwledig 2025
gyda Rheolaeth Traffig

Torri gwrychoedd ac ymylon ffyrdd gyda pheiriannau flail gan gynnwys gosod arwyddion a gosod systemau rheoli traffig Aros/Mynd ar Gefnffyrdd a Ffyrdd Sirol Dosbarth A a B.

Cytundeb Torri Gwair Gwledig 2025
heb Reolaeth Traffig

Torri gwrychoedd ac ymylon ffyrdd gyda pheiriannau flail gan gynnwys gosod arwyddion ar ffyrdd di Ddosbarth Sirol.

Gydag unrhyw ymholiad neu ddiddordeb,
Cysylltwch â Glyn Evans drwy e-bost
**Priffyrdddwyfor@gwynedd.llyw.cymru**


**Camau Cerdd**
Cymrodd dosbarth Bryn Hyfryd rhan mewn gweithdai cerdd wedi eu trefnu fel rhan o'r cynllun Camau Cerdd gan gymdeithas William Mathias. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r profiad yn fawr a diolch yn fawr am y cyfle.

**Diolch:** Hoffai'r Ysgol ddiolch i'r Cyfeillion am eu gwaith caled yn trefnu Ffair Nadolig llwyddiannus unwaith eto. Mae gweithgareddau'r cyfeillion yn ein galluogi i drefnu teithiau addysgiadol a thrwy hynny roi profiadau arbennig i'r disgyblion. Diolch hefyd i'r cyhoedd sydd yn cefnogi'r gweithgareddau hyn. Diolch yn fawr.



**Ymweliad Dŵr Cymru**
Cafodd y disgyblion gyflwyniad diweddar gan Dŵr Cymru. Diolch iddynt am ddod heibio i wneud cyflwyniad llawn gwybodaeth i'r disgyblion.

# Un funud fach ...

## RHYBUDD

Ddychrynoch chi? Sylweddoloch chi be oedd yn digwydd? Neu oeddech chi'n hanner disgwyl y peth? Tua saith o'r gloch nos Wener gyntaf Rhagfyr oedd hi pan ganodd y ffôn i'n rhybuddio bod Storm Darragh bron ar ein gwarthaf. Roedd y cyfarwyddyd yn glir, i ni beidio â mentro allan os nad oedd rhaid ac yn sicr i ni beidio â chrwydro ymhell. Daeth cadarnhad pellach o erwinder y storm drannoeth pan ganodd y ffôn tua chwech o'r gloch y bore i'n rhybuddio o'r perygl gwirioneddol o lifogydd.

Mi adawodd y storm ei hôl. O Aberdaron i Benarlâg ac o Gaergybi i Gaerdydd, tebyg oedd y stori: coed yn syrthio; toeau'n codi: afonydd yn gorlifo. Cabanau wedi eu difrodi ar bier Llandudno; Porthladd Caergybi wedi ei gau am ddyddiau; a llifogydd yn taro trefi fel Llanfair-ym Muallt. Ond daeth y mwyafrif ohonom drwyddi'n ddianaf, gobeithio, a hynny'n rhannol oherwydd y rhybudd a ddaeth trwy'r ffôn. Mi arhosodd y mwyafrif ohonom yn niogelwch ein cartrefi ein hunain, diolch am hynny.

Rhybudd difrifol gafwyd yn sgil y larwm a'n dychrynodd y nos Wener honno; ond rhybudd oedd hefyd yn newyddion da gan iddo arbed miloedd o bobl rhag peryg. Y noson y ganwyd Iesu Grist, parodd ymddangosiad yr angel a disgleirdeb gogoniant yr Arglwydd ddychryn i'r bugeiliaid. Ond tawelodd yr angel eu hofnau ac egluro mai newyddion da oedd ganddo: 'Ganwyd i chwi heddiw, yn nhref Dafydd, Waredwr' (Luc 2:11). Ond yr oedd y newyddion da'r un pryd yn rhybudd i'r byd anghenus. Roedd ar y byd angen Gwaredwr am ei fod mewn peryg. Roedd ar bobl angen y cymod y daethai Iesu Grist i'w sicrhau; roedd arnyn nhw angen y maddeuant y byddai'n ei gynnig. Ond er mwyn derbyn y cymod a'r maddeuant byddai rhaid iddyn nhw gymryd sylw o'r rhybudd: heb waredwr, roedden nhw mewn peryg. A heb weld a chydnabod y peryg hwnnw fydden nhw ddim yn troi at yr Iesu am waredigaeth.

Duw yn unig a ŵyr beth allasai fod wedi digwydd pe na fyddem wedi cymryd sylw o'r larwm a'r neges a ddaeth yn wyneb Storm Darragh. Mi allasai pethau fod yn llawer gwaeth; ond fe'n rhybuddiwyd am reswm da, er ein lles a'n diogelwch. Duw hefyd a ŵyr beth a ddigwydd os na chymer pobl sylw o'r rhybudd sy'n ymhlyg yn neges yr angel. O anwybyddu'r rhybudd fod arnyn nhw angen eu gwaredu rhag eu pechodau, wnaiff neb droi mewn ffydd at Iesu Grist. Ond nid Duw yn unig a ŵyr! Mae'r Brenin Mawr wedi gweld yn dda i egluro beth a ddigwydd. Heb Grist, heb ddim. Heb Grist, heb obaith a heb fywyd. Ond y newyddion bendigedig a gofir ac a ddethlir gan filiynau o bobl y Nadolig hwn eto ydi bod Gwaredwr wedi ei roi, a bywyd yn eiddo i bawb sy'n ei dderbyn trwy gredu ynddo.

Nadolig llawen a blwyddyn newydd ddedwydd a da i bawb ohonoch.

**JOHN PRITCHARD**


# Cronfa Cyfle i Bawb

Rhoi gwyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru

Gyda bron un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru, mae Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i fwynhau gwyliau haf.
Bydd eich cyfraniad yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau bythgofiadwy i blant yn un o Wersylloedd Haf yr Urdd.

Bydd rhodd o £220 yn cyfranu at weithgareddau, trafnidiaeth, llety, a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd. Drwy roi rhodd byddwch yn derbyn bathodyn pin arbennig a cherdyn post o'r gwersyll haf.

Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, fawr neu fach.

"Rydym mor ddiolchgar i'r gronfa am alluogi fy mab i gymryd rhan mewn gweithgareddau bendigedig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch ddiogel. Roedd yn wên o glust i glust trwy gydol gweddill y gwyliau."

- GOFALWR MAETH

Sut i wneud cyfraniad:

- Gwefan yr Urdd: **urdd.cymru/cronfa**
- Anfon siec yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Ffonio gwersyll Llangrannog ar 01239 652140



Cyfrannwch heddiw

Urdd



ECO'r Wyddfa

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com

# Ysgol Gwaun Gynfi





**Pêl-droed**
Cystadleuaeth Urdd Tîm Bl 3 a 4 a Tîm Genethod 5 a 6.



**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Daeth Aled Hughes, Radio Cymru, hebio i Ysgol Gwaun Gynfi a’r pentref yn ddiweddar yn ystod ei daith gerdded o Dreffynnon i Uwchmynydd er mwyn codi arian at ymgyrch flynyddol y BBC, Plant Mewn Angen. Daeth plant yr ysgol a thrigolion y pentref ynghyd i gynnig eu cefnogaeth iddo ar ei daith saith diwrnod.



**Blwyddyn 4 a 5 yn coginio**
Cafodd disgyblion Bl 4 a 5 brynhawn o goginio myffins iachus.



**Gweithdy Codi’r To**
Cafodd Blwyddyn 5 fore gwych mewn gweithdy Codi’r To yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.







**Ymweliad**
Bu’r Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Fferm Crugan fel rhan o’r thema dathliadau.

**Cyngerdd Nadolig**
Bu disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn canu carolau yn Eglwys Llanddeiniolen yn ddiweddar fel rhan o Gyngerdd Nadolig ar y cyd efo Band Deiniolen. Roedd yn hyfryd gweld yr eglwys yn llawn a phawb yn mwynhau canu’r plant, sŵn hyfryd y band pres a chael cyfle i gyd-ganu ambell i garol. Diolch i bawb am eu gwaith caled i drefnu’r noson.

**Ymweliad Blwyddyn 6**
Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 eu hymweliad diweddar ag Ysgol Uwchradd Brynrefail.



**Sul Y Cofio**
Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn mynychu’r gwasanaeth Sul y Cofio yn Neiniolen.

# CYFARCHION Y FLWYDDYN NEWYDD - IONAWR 20025!

Allwch chi ddod o hyd i'r cyfarchion Blwyddyn Newydd fydd yn cael eu rhannu ar draws y byd?

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | W | B | X | T | M | L | E | D | N | Y | M | F | E | D | Ch | Dd | B | H |
| Dd | G | E | L | U | K | K | I | G | N | I | E | U | W | J | A | R | E | D | G |
| K | O | Y | W | F | I | M | O | N | A | D | H | T | B | Ll | V | Ù | I | K | K |
| S | D | Å | Y | S | F | E | T | S | E | A | U | L | C | E | I | H | T | A | R |
| U | T | O | Dd | L | U | R | Dd | M | P | N | L | U | J | B | D | T | R | D | I |
| N | N | R | Y | G | T | D | F | P | V | O | N | Y | L | U | U | A | Q | B | N |
| A | Y | C | N | M | L | H | Y | R | A | D | I | I | W | A | T | M | N | U | T |
| N | T | O | N | N | A | N | O | U | B | R | O | L | Y | D | R | A | O | R | F |
| N | T | È | E | O | E | B | L | O | K | C | V | L | U | F | È | N | W | D | G |
| O | Å | U | W | W | D | Ù | G | B | K | T | E | A | R | F | N | H | E | L | I |
| U | R | Ch | Y | N | O | E | H | R | A | A | R | R | A | A | G | D | G | K | J |
| F | D | E | Dd | R | H | L | A | M | W | S | I | A | N | S | D | A | U | G | A |
| E | A | L | Dd | E | P | L | H | I | Y | O | M | T | I | A | L | I | R | M | N |
| R | T | X | A | T | R | Z | T | E | V | È | J | U | G | O | D | L | O | B | Z |
| I | P | P | W | U | E | A | L | U | F | I | K | Z | S | T | N | B | K | N | E |
| C | E | D | G | V | S | U | B | O | N | N | E | A | N | N | È | E | U | Th | G |
| I | Y | L | A | D | F | R | O | H | E | S | N | E | U | E | S | J | A | H | R |
| T | Z | O | R | F | E | L | I | Z | A | N | O | N | O | V | O | X | U | I | D |
| A | L | F | U | G | I | D | E | J | A | N | J | A | H | R | P | C | W | Z | O |
| B | L | E | D | H | E | N | N | O | W | Y | D | H | D | A | C | R | O | E | S |

**A GUADS NAIS**
**BLEDHEN NOWYDH DA**
**BLIADHNA MATH ÙR**
**BLOAVEZH MAT**
**BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**BOLDOG UJ ÈVET**
**BONNE ANNÈE**
**BUON ANNO**
**FELIZ ANO NOVO**
**FROHES NEUES JAHR**
**GELUKKIG NIEUWJAR**
**GODT NYTT ÅR**
**HAPPY NEW YEAR**
**MUTLU YILLAR**
**NOWEGU ROKU**
**UN AN NOU FERICIT**

Cofiwch mae llythrennau o'r wyddor Saesneg yn chwilair y mis hwn, ond mae llythrennau dwbl Cymraeg e.e. Dd, yn parhau i lenwi un sgwâr.

Oeddach chi'n gallu dyfalu o pa wlad ddaw'r cyfarchion? Dyma nhw i chi:

| CYFARCHIAD | GWLAD |
|---|---|
| A GUADS NAIS | BAFARIA |
| BLEDHEN NOWYDH DA | CERNYW |
| BLIADHNA MATH UR | GAELEG YR ALBAN |
| BLOAVEZH MAT | LLYDAW |
| BLWYDDYN NEWYDD DDA | CYMRU |
| BOLDOG UJ ÈVET | HWNGARI |
| BONNE ANNÈE | FFRAINC |
| BUON ANNO | YR EIDAL |
| FELIZ ANO NOVO | PORTIWGAL |
| FROHES NEUES JAHR | YR ALMAEN |
| GELUKKIG NIEUWJAR | ISELDIROEDD |
| GODT NYTT ÅR | NORWY |
| HAPPY NEW YEAR | LLOEGR AC AMERICA |
| MUTLU YILLAR | TWRCI |
| NOWEGU ROKU | GWLAD PŴYL |
| UN AN NOU FERICIT | RWMANIA |

## Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

## CHWILAIR MIS RHAGFYR - ARFERION A THRADDODIADAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD!

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | C | O | E | L | C | E | R | Th | Y | C | A | L | A | N |
| B | C | D | W | F | S | R | Ff | Y | G | R | C | M | Dd | S |
| E | T | Ng | H | P | T | D | A | S | P | Y | Y | Ll | U | L |
| L | U | D | E | Ll | C | O | R | B | E | M | F | N | R | Y |
| D | A | F | L | H | O | C | N | R | R | W | L | O | N | F |
| W | L | G | A | L | I | A | T | Y | A | E | A | P | I | A |
| C | O | E | D | E | N | N | A | D | O | L | I | G | A | R |
| A | R | D | R | Ph | E | H | D | I | N | Y | Th | C | D | I |
| L | A | E | Y | A | T | W | F | O | A | Dd | R | T | A | L |
| E | C | P | W | M | S | Y | C | N | D | L | Ff | S | U | W |
| N | R | A | B | A | Th | Ll | R | Y | O | W | P | U | M | Y |
| N | S | W | R | D | A | A | N | Rh | E | G | I | O | N | D |
| I | U | T | I | C | L | U | D | O | D | Ŵ | R | T | B | E |
| G | D | Y | D | T | E | C | U | A | I | D | R | A | C | X |
| U | T | A | Ff | I | T | R | I | O | G | O | T | G | C | Y |

**ADDURNIADAU**
**ANRHEGION**
**CALENNIG**
**CANHWYLLAU**
**CARDIAU**
**CAROLAU**
**CLUDO DŴR**
**COEDEN NADOLIG**
**COELCERTH Y CALAN**
**CYFLAITH**
**HELA DRYW**
**TAFFI TRIOG**
**Y FARI LWYD**
**YMWELYDD**
**YSBRYDION**

Dyma'r atebion i Chwilair mis Rhagfyr 2024 - gobeithio wnaethoch chi ddod o hyd i bob un ohonynt.

Roedd dau beth yn y chwilair efo enw gwahanol am yr un peth. Wnaethoch chi ddarganfod - **cyflaith a taffi triog**? Blasus iawn ond byddwch ofalus os oes llenwad yn un o'ch dannedd!


## Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned Age Cymru Gwynedd a Môn



Prydau bwyd wedi'u darparu o **Caffi'r Cartref Age Cymru Gwynedd a Môn**, Bontnewydd a'u cludo i'ch cartref

(Ar gael Dydd Llun i Ddydd Gwener)

**Cost prif gwrs yn £7 neu gost prif gwrs a phwdin yn £10 (yn cynnwys cost cludiant)**

Ffoniwch 01286 685 926 neu ebost megan@acgm.co.uk am wybodaeth neu i archebu.

***Rydym hefyd yn chwilio am yrrwyr i wirfoddoli gyda cludo'r prydau (ad-delir 40c y filltir)***



Gwynedd a Môn age Cymru

## PENISARWAUN

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd hapus a llewyrchus i drigolion y pentref. A chofiwn at bawb sy'n sâl ar y funud, gan ddymuno gwellhad buan i chi.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned - Dathlu'r Nadolig**
Pnawn Mercher 18fed Rhagfyr, treuliwyd orig hyfryd ar y cyd â phlant yr ysgol, gydag eitemau Nadoligaidd clodwiw gan y plant a darlleniadau gan aelodau'r pwyllgor.

Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr, a'r enillwyr oedd:
1af - Mrs Blodwen Mowll
2il - Nel Parry, Rhyd y Groes, Pentir

Da deall fod Mrs Catrin Roberts, y Pennaeth, yn gwella. Diolchir i bawb a ddaeth i fwynhau naws Nadolig 2024 gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda yn 2025.

Dymunir diolch i bawb sydd wedi cefnogi gweithgareddau 2024 er budd y gost o redeg y Neuadd hyfryd sydd gennym. Atgoffir chi fod modd llogi'r Neuadd ar gyfer penblwyddi ac amrywiol weithgareddau am bris rhesymol drwy gysylltu â'r Trysorydd, Glyn Jones (01286 870 433).

**Cyfeillion Ysgol Gymuned Penisarwaun**
Cafwyd Ffair Nadolig llwyddiannus iawn yn y Neuadd ar nos Fercher 4ydd o Ragfyr. Roedd y plant wedi mwynhau cael gweld Siôn Corn a chwarae'r gemau niferus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Byddwn yn cynnal y digwyddiad nesaf mis Ionawr – gwyliwch allan am wybodaeth yn fuan.

**Sesiwn Rhiant a Phlentyn**
Bydd Baby Brahms yn cynnal sesiwn yn Neuadd Santes Helen, Penisarwaun ar fore Gwener 31ain o Ionawr am 10yb. Mae hon yn sesiwn cerddoriaeth glasurol addas i blant cyn-ysgol. Croeso i bawb.






**Noson yng nghwmni Eurgain Haf**
Braf oedd gweld y Neuadd Gymuned yn llawn ar nos Wener wlyb mis diwethaf i groesawu Eurgain Haf yn ôl i Benisarwaun. Cawsom noson *'This is your life'*, dan arweiniad Phyllis Ellis, yng nghwmni Eurgain i ddathlu ei llwyddiant yn ennill Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf am 'Y Morfarch Arian'.

Cawsom gyfle i hel atgofion a chlywed gan rai o'i chyn-athrawon a chyfoedion ar y noson. Diolch yn fawr i Len Jones (Cyn-brifathro Ysgol Tan y Coed), Ann Tomos (Cyn-athrawes Ysgol Tan y Coed), Esyllt Maelor (Cyn-athrawes Ysgol Brynrefail) ac Annes Glynn (un o feirniaid y gystadleuaeth yn Eisteddfod Pontypridd) am rannu eu hatgofion a'u straeon, a diolch i Angharad Price a Catrin Roberts am y negeseuon hyfryd.

Difyr oedd clywed cefndir 'Y Morfarch Arian' gan Eurgain. Cafodd y syniad gwreiddiol wrth deithio yn Seland Newydd yn 2005 a chafodd ei chyfareddu gan y wlad a'i chwedlau. Mae ganddi ddiddordeb mewn chwedlau erioed, wedi ei sbarduno gan ei Mham yn adrodd chwedlau Eryri pan oedd yn blentyn. Tra draw yn Kaikura yn Seland Newydd, daeth Eurgain ar draws broetsh arian Morfarch a dechrau pendroni tybed beth oedd cefndir y morfarch? Cymrodd dipyn o amser i 'sgwennu'r nofel, ond mae'n falch iawn o'r nofel derfynol.

Braf oedd clywed gan Eurgain am y dylanwad mae ei magwraeth ym Mhenisarwaun a'r ardal ehangach wedi ei gael arni. Rhannodd atgofion melys o gymryd rhan yn Eisteddfod Bentref



Penisarwaun - perfformio Te'n y Grug hefo'r ddwy Sioned wedi aros yn y cof, ac ennill gwobr Prif Lenor yr Eisteddfod, a'r holl gyfleoedd ddaeth yn Ysgol Brynrefail ar ôl hynny.

Cyflwynwyd llechen gydag englyn Mererid Hopwood yn arbennig i Eurgain, gan Phyllis, ar ran Pwyllgor Eisteddfod Bentref a theulu Eurgain.

Clowyd y noson gyda pherfformiad o 'Cân yn Ofer' gan Gôr yr Eisteddfod Bentref.

Cafwyd casgliad ar y noson - llwyddwyd i gasglu £140 ar gyfer elusen Achub y Plant. Diolch i bawb fu'n rhan o'r noson ac i bawb a gyfrannodd tuag at y casgliad.

Englyn arbennig Annes Glynn, a gyflwynwyd ar y noson:

**'I ddathlu camp Eurgain'**
Brif Lenor – rhwng dy gloriau mae heulwen,
Mae heli yn donnau,
A'th stori di am daith dau
Ddenodd f'edmygedd innau.





Dathlu Prosiect 5 mil

**Eglwys Santes Helen**
Digwyddodd dathliad arbennig ar Dachwedd 19eg i nodi ail-agor Neuadd Santes Helen ar ôl gwaith o atgyweirio ardderchog gan Brosiect Pum Mil. Bydd y Rhaglen am y gwaith yn cael ei darlledu ar S4C yn ystod 2025.

Daeth Esgob Enlli, y Gwir Barchedig David Morris i bregethu mewn Gwasanaeth o Ddiolchgarwch a arweinwyd gan y Barchedig Ganon Naomi Starkey a Mr Jonno Jones. Yn dilyn, bendithiodd yr Esgob y neuadd ail-anedig wrth i bawb fwynhau lluniaeth a sgwrs.

**Gwasanaethau'r Eglwys**
**Rhagfyr**
22ain Rhagfyr - Pedwerydd Sul yr Adfent
11.00am Boreol Weddi
Nos Fawrth 24ain Rhagfyr, Noswyl Nadolig
9.00pm - Gwasanaeth y Cymun Bendigaid
Estynnir croeso cynnes i bawb i ddathlu'r Ŵyl ar drothwy Dydd y Nadolig.
29ain Rhagfyr - Sul Cyntaf y Nadolig
11.00am Cymun Bendigaid

**Ionawr**
5ed Ionawr - Yr Ystwyll
11.00am - Boreol Weddi
12fed Ionawr - Bedydd Crist
11.00am Boreol Weddi

19eg Ionawr - Ail Sul yr Ystwyll
11.00am - Boreol Weddi

26ain Ionawr - Trydydd Sul Ystwyll
11.00am - Cymun Bendigaid

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen



## COFNODION CYFARFOD 3YDD FEDI 2024


Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

**Ceisiadau Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
**C24/0775/18/AC - Arfryn, Fachwen**
Dymchwel estyniad presennol, a chodi un yn ei le. Dim Gwrthwynebiad
**C24/0769/18/DT - Llygad yr Haul, Penisa'r-waun.**
Dymchwel estyniad to fflat ochr a chodi estyniad deulawr to brig ochr ynghyd ag estyniad blaen deulawr to brig, a chodi adeilad allanol yng nghefn yr ardd. Dim Gwrthwynebiad
**C24/0763/18/DT - Tan y Ffordd, Bethel**
Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi estyniad yn ei le. Dim Gwrthwynebiad
**Plas Coch, Penisa'r-waun**
Mae cais ôl gweithredol wedi ei roi ar gyfer y gwelliannau yma, nid oes amser wedi ei nodi i leihau'r amodau sydd wedi eu nodi, ac nid ydym wedi clywed dim ers i swyddogion fod yn ymweld ar y safle.
**Capel Glasgoed**
Ymhellach i'r ffaith ein bod yn credu fod gwelliannau a newidiadau wedi eu gwneud ar yr adeilad yma, heb ganiatâd cynllunio, mae bellach mynediad arall wedi ei agor i'r capel - hwn fydd y 6ed mynedfa ar yr adeilad erbyn hyn.
**Sefyllfa Ariannol**
Cyflwynodd y clerc restr o wariant a derbyniadau hyd yma, ynghyd a mantolen 6 mis i'r cynghorwyr. Nodwyd fod popeth i weld yn hollol eglur, ac mi fydd angen i'r pwyllgor cyllid gyfarfod mis nesaf i ddechrau trafod cyllideb y flwyddyn nesaf i baratoi penderfynu Praesept. Derbyniwyd ac arwyddwyd y dogfennau.

**Rhoddion Ariannol**
Bu i'r Cyngor dderbyn 13 cais, a derbyn 9. Dyma restr a fu yn derbyn £300
Clwb Bowlio Dan do Bethel
Neuadd Gymuned Penisa'r-waun
Eisteddfod Penisa'r-waun
Eco'r Wyddfa
Cyfeillion Rhiwlas
Clwb Crefft Rhiwlas
Clwb Snwcer Deiniolen
Pwyllgor Pentra Deiniolen
Clwb Rhiwen

**Rhodd o ystâd y diweddar Ken Harris**
Yn dilyn sawl sgwrs o beth a sut i ddyrannu'r arian y gronfa yma, penderfynwyd yn y diwedd gyfuno ambell i awgrym a dod i'r penderfyniad yma:
Penderfynwyd cydweithio gydag ysgolion cynradd y plwyf (4) i wahodd ceisiadau gan ysgolion i weithio mewn partneriaeth a'r Cyngor i gyflawni amcanion fel y maent wedi ei nodi gan y Cyngor o dan geisiadau Rhoddion.
**Amcanion y Cyngor:**
**"Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cydnabod ac yn cefnogi'r cyfraniad gwerthfawr a wneid gan lawer o grwpiau gwirfoddol a sefydliadau ym meysydd chwaraeon celf, diwylliant, gofal cymdeithasol, gwasanaethau ar gyfer pob ifanc, yr henoed a phobl ag anableddau a llawer o rai eraill sy'n cyfrannu at les y gymuned. Y bwriad wrth ddyrannu cymorth ariannol yw gwella ystod o wasanaethau a gweithgareddau lleol."**
Byddai yn gyfle i ddarpar ddinasyddion ddod yn ymwybodol o fodolaeth a rôl y Cyngor Cymuned ac i ystyried sut y gallent hwy (mewn partneriaeth a grwpiau eraill) gyfrannu at wella amodau eu cymuned. Mae'r ysgolion yn ganolbwynt eu cymdeithas ac yn gallu partneru a denu cefnogaeth a chyfraniad gan eu cymuned. Felly, bydd y Cyngor yn symud ymlaen i roi syniadau at ei gilydd i weithredu a gwahodd aelodau o'r ysgolion i gyflwyno cais ar gyfer prosiect yn fuan.



# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## CRYNODEB O GOFNODION CYFARFOD 12FED TACHWEDD 2024

Ar ddechrau'r cyfarfod, nododd Elfed Wyn Williams ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned yn dilyn 15 mlynedd o wasanaeth. Cefnogwyd hyn gyda llythyr swyddogol ganddo.

Nid ydym fel Cyngor eisiau derbyn ei ymddiswyddiad, ond dyna yw ei ddymuniad. Rydym yn ddiolchgar dros ben iddo am ei waith a'i fewnbwn o fewn y Cyngor Cymuned dros y blynyddoedd a fu. Bydd colled a bwlch gwag ar ei ôl. Dymunwn y gorau iddo yn ei waith fel Cynghorydd Sir Ward Deiniolen.

**Cofnodion Cyfarfod y 1af Hydref 2024:**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir, a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor.
**Cynllunio:**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
**C24/0834/18/TC – Tros y Waun Fach, Lôn Castell, Rhiwlas.**
Tystysgrif cyfreithlonni ar gyfer lleoli carafán o fewn cwrtil tŷ annedd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r tŷ annedd presennol ac yn atodol iddo.
Penderfyniad - Nid oes wrthwynebiad.
**C24/0853/18/LL – Tir ger Tyn Clwt, Deiniolen**
Mynedfa Gerbydol Newydd.
Penderfyniad – Rhaid gwarchod y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd trwy'r tir, a chais i'r Adran Briffyrdd wneud yn sicr fod yr adwy'n ddiogel, gan ei fod yn lle digon peryg i ddod allan o bob ochr.
**C24/0600/18/CR – Erw Pwll y Gro, Pontrug**.
Amnewid ffenestr yn ôl i ddrws ar edrychiad cefn a chreu agoriad newydd mewnol.
Penderfyniad – Dim Gwrthwynebiad.
**G24 / 0168 – Parciau Rhos Bethel**
Newid defnydd tir ar gyfer lleoli 4 carafán sefydlog at ddefnydd preswyl ynghyd â thor amod cynllunio 4 ar gais cynllunio C24/0103/18/LL
Rydym yn ddiolchgar i'r Adran Gorfodaeth am ymweld â'r safle yma yn sgil y Cais Cynllunio a dderbyniwyd, ac yn falch fod camau wedi eu cytuno yn dilyn trafodaethau â'r perchennog.

**Adroddiad o'r Is bwyllgor Cyllid:**
Bu i'r Pwyllgor gyfarfod cyn y Cyfarfod Llawn, gan gychwyn ar drafodaeth ynghylch gosod cyllideb i ddarganfod anghenion praesept eleni. Mae'r Pwyllgor yn edrych yn fanwl ar gyllido 5 mlynedd. Yn y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi cadw'r praesept mor isel â phosib, ond gan sicrhau fod cyllid i wneud pethau angenrheidiol a chadw ychydig ychwanegol wrth gefn.

- Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi edrych ar gysgodfa bws, ac wedi gosod 4 yn ystod y cyfnod. Rydym hefyd yn gweithio ar un arall, ac yn amlwg yn dangos fod angen ffigwr i mewn bob blwyddyn.
- Yn dilyn cynllun hyfforddiant, mae'r Pwyllgor yn edrych am barhau gyda chlustnodi swm, lle y disgwylir fod Cynghorwyr yn gwneud ymdrech i fynychu a derbyn hyfforddiant.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno i gyllido 3 clwb ieuenctid yn flynyddol. Eleni, mae 2 wedi cychwyn a gobeithio bydd y trydydd yn cychwyn yn fuan. Bydd hyn ar gost o oddeutu £16 mil y flwyddyn.
- Rydym dal i gredu ein bod angen parhau i wella ein llwybrau. Rydym eisoes wedi gwario oddeutu £20 mil dros y 3 blynedd ddiwethaf, Roedd yr arian hwn wedi dod yn sgil tan wario yn ystod blwyddyn Cofid; ac felly bydd rhaid parhau i osod swm i atal y llwybrau ddisgyn yn ôl i safonau is-radd ac i sicrhau gwelliant ar y rhai eraill.
- Rydym hefyd dal am glustnodi ar gyfer prosiectau cymunedol a rhoddion i fudiadau yn flynyddol.

Mae'n bwysig ac yn ofynnol arnom i osod praesept, a rŵan ydi'r amser i feddwl beth fyddwn yn penderfynu ei ariannu, beth sydd am gael ei flaenoriaethu. Byddwn hefyd yn gosod rhaglen a chyllideb dros 5 mlynedd a hynny gan ystyried chwyddiant.

**Sefydlu Is-bwyllgor Cronfa'r Diweddar Ken Harris:**
Yn dilyn ein penderfyniad i gydweithio gyda 4 ysgol gynradd y gymuned ar greu prosiect yr un, penderfynwyd sefydlu Is-bwyllgor i allu symud hyn ymlaen yn fuan yn y flwyddyn newydd.

**O Gwmpas y Bwrdd:**
**Chwarel Dinorwig** – Trist yw nodi fod yna fandaliaeth wedi bod yn y Chwarel. Mae'r cwt sydd uwchlaw Fferinjan – sef cantîn bychan a oedd wedi ei adael fel yr oedd gyda bwrdd bach a chadeiriau, cotiau ac esgidiau ayyb rhai chwarelwyr wedi cael eu canfod wedi eu difrodi'n llwyr. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at y perchnogion i gael ymateb ynglŷn â beth sydd yn mynd i gael ei wneud am hyn.

**Pont Brynrefail** – Nodwyd fod fan wen yn cael ei gadael ar y bont, sy'n rhwystro bysiau rhag mynd trwy'r pentref. Tybed oes angen llinellau melyn ar y bont. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld beth sydd bosib ei wneud.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15FED HYDREF 2024

1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
2. Derbyniwyd cofnodion Medi yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.
3. Materion yn codi or Cofnodion:
   a) Adroddwyd fod y Cynghorydd Avril Jones, ynghyd â'r Clerc, wedi bod o gwmpas y caeau chwarae i weld faint o arwyddion oedd eu hangen.
   Nodwyd fod angen arwyddion ar gyfer y canlynol:
   Rheolau y caeau chwarae; Dim cŵn; Dim ysmygu.
   Bydd y Cyngor yn symud ymlaen i archebu'r arwyddion.
   b) Holiadur caeau chwarae. Mae'r Cyngor wedi gofyn i'r Ysgol Gynradd os y buasai'n bosib i'r plant lenwi'r Holiadur ar gyfer penderfynu pa offer ychwanegol fyddai'n dderbyniol i gae chwarae Pwll Moelyn.
   Hyd yma nid yw'r Ysgol wedi ymateb.
   c) Adroddwyd fod y diffibriliwr wedi ei osod yn Crawia ac wedi ei gofrestru gyda 'The Circuit'.
4. Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, aelodau dros Llanrug a Chwm y glo ar Gyngor Gwynedd. (Copïau i'w cael gan y Clerc.)
5. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.
   a) Yn dilyn ymholiad ysgrifenedig gan ymgymerwyr lleol ynglŷn â chyfrifoldeb torri beddi, ymatebodd y Clerc trwy lythyr nad oes newid i'r drefn bresennol, ond mae yna risg i'r Cyngor os nad ydym yn ymwybodol o bwy sydd yn torri bedd, pa bryd, a pha systemau iechyd a diogelwch sy'n cael eu defnyddio. Oherwydd hyn, mae'n bosib y bydd angen casglu'r wybodaeth berthnasol yn y dyfodol.
   b) Yn dilyn ymholiad ysgrifenedig gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â Mynwent yr Eglwys, bydd rhaid adolygu os yw'r arwyddion yn nodi'n glir pa gorff sy'n gyfrifol am ba fynwent. Yr oedd yr ymholiad hefyd yn cwyno am gyflwr y lôn i'r eglwys a'r mynwentydd.
   c) Cyhoeddwyd canlyniadau cystadleuaeth genedlaethol (DU) Mynwent y Flwyddyn ar Fedi 24. Unwaith eto, enillodd Cyngor Cymuned Llanrug wobr arian yn ei chategori.
   Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cyfrannu at y canlyniad a diolch iddynt am eu gwaith caled dros y flwyddyn diwethaf.
6. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.
   Ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd
   a) Fod y gwaith yn mynd rhagddo ar adolygu gwefan y Cyngor.
   b) Fod polisi grant y Cyngor wedi ei adolygu, a penderfynwyd nad oedd angen ei newid ar hyn o bryd.
   c) Adolygwyd y gyllideb, ac fe'i haddaswyd fel yn briodol.
7. Trefniadau parcio Glanmoelyn.
   Adroddwyd fod cais wedi ei dderbyn yn holi os oedd yn bosib newid trefniadau parcio

# Cyngor Cymuned Waunfawr

## COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2024

**Cofnodion Hydref:**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 23ain Hydref 2024. Cynigiwyd gan y Cyngh. EG ac eilwyd gan y Cyngh. EO.

**Materion yn codi o'r Cofnodion:**
**Materion Caeathro:**
Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon – Aros am ddiweddariad.
Cylchfan Caeathro – Ar raglen waith Cyngor Gwynedd.
Arwydd Ffordd – Cyngor Gwynedd yn mynd i'w osod.
Arwyddion 20mya – Rhagor o arwyddion wedi eu gosod yn y pentref.

**Materion Waunfawr:**
Cae Aml-dywydd – Aros am adroddiad ar y cae gan Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wario £10,000 i adnewyddu'r cae unwaith bydd y les wedi ei harwyddo.

Golau fflachio bob ochr i'r pentref – Aros am ddiweddariad am y Ganolfan Iechyd.

Baw Ci – Blwyddyn 6 a chynrychiolydd o bob blwyddyn ar Gyngor yr Ysgol yn cael ymweld â Siambr Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2025; a byddant yn trafod ail gylchu, baw ci a.y.y.b. Mae problem baw ci yn parhau yn y pentref: gofynwn yn garedig i bawb godi'r baw wrth fynd â'r ci am dro. Mae dirwy i'w chael os caiff perchnogion eu dal yn gadael y baw heb ei godi.

Tyllau yn y ffordd – Mae Cyngor Gwynedd yn mynd o amgylch ac yn cau'r rhain pan yn yr ardal.

Gwefan – Mae gwefan y Cyngor yn fyw, a'r wybodaeth i gyd wedi ei diweddaru.

Arwydd Stad Bod Hyfryd – Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd, aros diweddariad.

Hysbysfwrdd – Y Clerc yn edrych am bris i gael un newydd tu allan i'r Ganolfan.

Diffib – Mae diffib newydd wedi ei osod tu allan i'r Ganolfan er cof am aelod o Glwb Snwcer y pentref. Bydd diffib y Cyngor yn cael ei ail leoli rwan o tu allan y siop i Groeslon, Waunfawr. Bydd hyn yn golygu y bydd diffib ar gael wedyn yn y Snowdonia Parc (tafarn Waun), Y Ganolfan a Groeslon, Waunfawr.

Gor yrru – Mae gor-yrru drwy'r pentref yn broblem. Wedi gofyn i Gyngor Gwynedd osod monitor i fesur cyflymder ar hyd y ffordd o SFP i Groeslon, ar hyd y brif ffordd drwy'r pentref ac ar ffordd yr Ysgol. Trafodwyd hefyd drigolion yn defnyddio beics/scwter gyda'r nos heb olau arnynt: gall hyn achosi damwain. Plis, byddwch yn ofalus ar y ffordd.

Gwasanaeth Cof ger y Cof golofn – bydd yr Ysgol yn trefnu gwasanaeth cof ger y Cof golofn yn y pentref ar 11eg Tachwedd 2024 am 10:50 yb. Croeso i unrhyw un ymuno. Diolch i'r Ysgol am drefnu.

Coeden Nadolig – Mae'r Ysgol Feithrin wedi gofyn am gael cynnal noson goleuo y goeden eleni ar 1af Rhagfyr 2024. Bydd gwaith o osod seren arni erbyn eleni, a bydd angen set o oleuadau gwyn. Hapus i'r clerc archebu'r goleuadau. Diolch i'r trigolion sy'n gwneud y gwaith o ddarparu'r goeden a'i gosod eto eleni.

**Gerddi Bach:**
YCG wedi gorffen y gwaith o ail beipio y ffoes, ac hefyd wedi gosod peipan ychwanegol er mwyn dreinio y cae. Aros GL Jones rwan i osod rwber o dan y swings.

**Llochesi Bws:**
Lloches bws wedi ei osod ar Ffordd yr Ysgol ar gyfer defnydd plant Ysgol Brynrefail. Aros pris am baent gan y gofalwr ar gyfer ail beintio y lloches bws ger yr Hen Bost

**Llwybrau:**
Dim

**Y Fynwent:**
Mater sensitif wedi dod i'n sylw, a'r Cynghorwyr wedi trafod.

**Cynllun Gwyrfai Gwyrdd**:
Wedi derbyn a rhannu adroddiad a'r diweddariad am y gwaith gan y Cyngh. DD. Os am fwy o wybodaeth ynglyn â'r Cynllun mae croeso i chi gysylltu â'r Cynghorydd DD (manylion cyswllt ar y wefan).


**Llifogydd**:
Y Cyngh. EG wedi bod o amgylch y pentref hefo swyddog o Gyngor Gwynedd i ddangos y gwteri sydd angen eu glanhau. Bydd y gwaith yn cael ei drefnu yn fuan. Cyngh. EO, Cyngh. EG a'r Cyngh. DD i gysylltu â YGC am ddiweddariad i wneud hefo'r cynllun atal llifogydd yn y pentref. Bydd diweddariad yn fuan.

**Mantolen 6 mis cyntaf 2024–25:**
Cynigwyd fod y mantolen am 6 mis cyntaf 2024–25 yn gywir gan y Cyngh. LD, ac eilwyd gan y Cyngh. DD.
**Grantiau/Rhoddion:**
Trafodwyd ceisiadau am roddion. Gweler rhestr ar ein cofnodion llawn ar y we.
**Dyddiad cyfarfod nesaf:**
4ydd Rhagfyr 2024 yn Y Ganolfan, Waunfawr.



ger cae chwarae Pwll Moelyn. Ar hyn o bryd, mae ceir yn parcio un y tu ôl i'r llall, a'r cais oedd i newid fel bod ceir yn parcio ac yn wynebu'r cae chwarae.
Penderfynwyd: Trafodwyd y cais, ac oherwydd rhesymau fel y byddai rhaid colli llawer o dir y cae chwarae, byddai cyfanswm manteision y llecynnau parcio ddim yn gwarantu'r holl waith. Ar ddiwedd y dydd hefyd, mater i Gyngor Gwynedd ydi materion priffyrdd a pharcio.

8. Ceisiadau Cynllunio.
a) Rhif y Cais: C24/0757/23/LL. Newid defnydd tŷ (C3) i lety tymor byr (C6), dymchwel adeilad allanol presennol a chodi adeilad ar gyfer pwll nofio mewnol yn ei le, a dymchwel modurdy dwbl ac adeiladu anecs deulawr yn ei le. Bwthyn, Tyddyn Bistle, Ffordd Cae Garw, Rhosbodrual, Caernarfon.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.
b) Rhif y Cais: C24/0733/23/CC Gwaith i goed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed. Brynteg Caravan Park. Llanrug.
Penderfynwyd: Cytuno i'r cais, ond mynegwyd barn fod y Cyngor yn anesmwyth gyda'r nifer o goed sy'n cael eu torri ac yn gobeithio nad oes gwaith yn mynd ymlaen i dorri coed sy'n holliach. Gobeithio hefyd fod yna goed yn cael eu plannu i gymryd lle'r rhai a dorrwyd.


Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191

WAVELLS
ESTD 1973
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 32


Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Pan gyrhaeddodd Bob llethrau Eryri roedd o'n pwyso 6kg, felly dydy o erioed wedi bod yn be fasach chi'n ei alw'n denau. Ond mae ei berchnogion yn rhoi bwydlen gytbwys, wedi ei seilio ar gig iddo er mwyn ei gadw'n heini ac iach. Yn lwcus dydy o ddim yn hoffi bwyd y deu-droediaid, gan fod rhai o'u bwydydd nhw'n gallu bod yn wenwynig iddo fo e.e. nionod. Mae milfeddygon yn argymell bwydo eich cath yn ddyddiol gan ddarparu ychydig o brydau bach drwy gydol y dydd. Bydd angen darparu bwyd yn unol â'u hanghenion penodol a sicrhau nad ydynt yn cael mwy na llai na'r hyn maent ei angen. Dydach chi ddim isio lwmp o gath ond ar y llaw arall dydach chi ddim isio bod efo sgilffyn main ac esgyrnog! Os aiff eich cath yn rhy dew gall effeithio hyd eu bywydau ac ar safon eu bywydau. Dylech fedru weld a theimlo asennau, asgwrn cefn a chluniau eich cath a dim ond ychydig o frasder ddylai fod ar ei fol, ni ddylai'r bloneg fod yn hongian oddi tanno. Pwysau arferol cath yw rhwng 3.6 i 4.5kg, ond mae pethau fel oedran, rhyw a math o gath yn ffactorau i'w hystyried wrth ddyfalu beth yw pwysau normal eich cath. Fel arfer byddai cath sy'n pwyso 5.5kg neu fwy yn ordew!*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl cael blwyddyn ddiddorol…

"Maen nhw, y deu-droediaid, wedi bod yn mwydro am addunedau blwyddyn newydd eto byth. Wnes i wrando arnyn nhw llynedd ac mi wnes i addunedau hefyd. Ydach chi'n cofio beth oeddan nhw? Dydy cathod ddim yn addo gwneud dim fel arfer, ond mi ddilynais i drefn y deu-droediaid a gwneud addunedau. A rhaid i mi ddeud i mi lwyddo i gadw at rhai o'r addunedau wnes i llynedd, er nad ydy cathod yn addo gwneud dim fel arfer.

Dal mwy o lygod oedd un ohonyn nhw, a wir i chi mi wnes i ddal un yr wythnos dwaetha, er fu bron iawn i'r cenna bach ddengid i lystyfiant yn yr ardd, ond mi ges i o'n y diwedd. Mae'r deu-droediaid wedyn yn deud mod i'n hogyn da, cyn, wn i ddim os goeliwch chi hyn, cyn ei daflu dros y wal i'r cae. Wir yr! Ond o leiaf mi gaiff ryw dylluan neu lwynog fwyd felly. Felly mae'r adduned yma'n helpu fy nghyfeillion blewog a rhai pluog y nos.





Dwi'n dal i weithio ar fy addewid o ran dal twrch-daear. Dwi'n treulio oriau (pan nad ydy'n bwrw ac yn chwythu) ac yn clywed y pethau bach yn crafu a thyrchio o dan y ddaear. Dwi hyd yn oed, bron iawn, wedi dal un fel daeth o i'r wyneb… Ond mi ddaeth y ddeu-droed bach heibio ac wrth gwrs mi glywodd y twrch ei dwy droed swnllyd a diflannu cyn i mi gael fy nghrafangau ynddo fo. Mae isio gras efo nhw weithiau.

Dwi wedi bod yn gwneud 'yoga' drwy gydol y flwyddyn, tu mewn os ydy'n oer ond allan weithiau hefyd.




Wrth i mi ymlacio, a gwneud fy yoga o flaen y bocs sgwâr tân, mi wrandawais ar fy neu-droediaid yn sgwrsio, eto byth am yr addunedau yma. Ond, och a gwae, roeddan nhw'n trafod adduned ar fy nghyfer i, yn hytrach na rhai ar eu cyfer nhw. Dywedodd yr un fach bod hi'n hen bryd i mi golli dipyn o bwysau! Fy mod i'n 6kg ers i mi ddod atyn nhw a dylai hynny newid! Rhag ei chywilydd hi… ella nad ydw i'n denau fel styllen, ac ydw mi ydw i'n llond fy nghroen ac yn ddigon heini i neidio waliau, dringo coed a dringo ar fath y pethau bach pluog i gael diod. Allai ddim coelio fy nghlustiau!

Gyfeillion, canlyniad y sgwrs bondigrybwyll oedd nad ydw i bellach yn cael llawer o ddanteithion bach blasus rhwng fy mrecwast a swper. Diolch byth mae'r brecwast a swper yn dal i ymddangos yn fy mhowlen ben bore ac yn gynnar yn y prynhawn, os nad ydyn nhw'n crwydro yn y bocs ar olwynion. Os ydyn nhw'n crwydro mae fy swpar yn aml yn hwyr…

Y peth gwaethaf ydy nad oes llawer o ddanteithion bach blasus yn cael eu rhannu i mi rhwng brecwast a swper! Yr unig gysur sydd gen i ydy fod y ddeu-droed mwyaf yn rhannu rhai i mi pan dydy yr un fach ddim o gwmpas, gan ddeud, "A paid a deud wrth dy nain fy mod i'n rhoi'r rhain i ti, neu mi fyddwn ni'n dau mewn trwbl!"

Dwi'n meddwl a'i i orwedd i lawr am funud, i gadw fy egni. Dydy addunedau flwyddyn newydd ddim bob amser yn bethau da i gathod. Mae hi'n sôn am fy mhwyso fi! Mae hynny'n swnio'n boenus, felly mi fydd yn rhaid i mi chwilio am le newydd i guddio rhagddi! Gobeithio na fydd yr adduned yma'n para'n hir, yn ôl be dwi'n ei ddallt dydy rhai'r deu-droediaid ddim yn para'n hir chwaith.

A cyn i mi anghofio. Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, os ydach chi wedi gwneud addewidion neu beidio."






# Nodiadau Natur

Planhigion sydd â chyswllt i'r Nadolig oedd testun y mis diwethaf. Trafodir dau aderyn y mis yma, sef y coch dan adain a'r socan eira. Ymwelwyr yn ystod misoedd oerach y flwyddyn ydyn nhw ac roedd ambell un o gwmpas, yn ôl pob son, wrth i'r eira gyrraedd yn ystod mis Tachwedd. Fyddan nhw ddim yn ymweld â'r ardd ond mi fyddant i'w gweld yn y caeau o bryd i'w gilydd.

**Socan Eira**
Enw gwyddonol - *Tarddais pilaris*
Enw Saesneg - *Fieldfare*

Enwau eraill Cymraeg - *Caseg y ddrycin, Socan Lwyd, Aderyn yr Eira, Caseg Eira, Sogiat*

Mae'n cyrraedd yma ym mis Medi neu Hydref, yn aml mewn *flocks* sy'n aml yn cynnwys y Coch dan Adain hefyd. Gallwch ei adnabod drwy'r cyfuniad o ben llwyd, bol a gwddf gwyn, cefn brown, crwmp llwyd a chynffon ddu. Mae ganddo blu du ar yr wyneb, smotiau du ar ei ochr tra bo'r plu ar ei fol yn hufen/oren-hufen.

Mae'n mesur tua 25cm (neu tua 10 modfedd) o hyd, ac mae'n pwyso oddeutu 80 i 130g.

Maw'n bwyta pryfed genwair gwlithod a phryfed ar lawr ac yn gwledda ar aeron ac afalau a ffrwythau o'r cloddiau, coed a llwyni.





**Coch Dan Aden**
Enw gwyddonol - *Turdus iliacus* Enw Saesneg - *Redwing*

Enwau eraill Cymraeg - *Asgell Goch, Adain Goch, Tresglen Goch, Socen yr Eira*

Aderyn sy'n ymweld yn y gaeaf yw'r Coch dan Adain. Mae'n llai na'r fronfraith ond yn hawdd i'w adnabod oherwydd y streipen lliw hufen uwchben y llygaid ac o dan y boch dywyll. Mae ei fol a'i fron yn arian ac mae streipiau tywyll taclus arno. Mae patsh coch rhydlyd, sy'n ymestyn i'r coch o dan ei adain pan yw yn yr awyr. Enw da felly!

Mae'n aderyn o tua 21cm (neu 8 modfedd a hanner) o hyd ac mae'n pwyso oddeutu 60 i 70g.

Mae'n bwyta pryfed genwair, pryfetach a hadau ac aeron yn y cloddiau. Os yw'n gaeaf caled mi wneith ymweld â'r ardd i gael afalau ac aeron.













## Ysgol Dolbadarn

**Dysgu Iaith BSL**
Mae blwyddyn 1 a 2, dosbarth Elidir wedi bod yn rhan o Brosiect Catrin ac Abi wrth ddysgu iaith BSL. Diolch mawr i Angela, Ffion a Dasher y ci am eu dysgu.






**Teithiau Llesol**
Yn rhan o gynllun 'Teithiau Llesol' yr ysgol, mae'r dysgwyr wedi bod yn rhan o fws cerdded a sgwtera i'r ysgol ar foreau Gwener. Mae pawb yn cwrdd wrth y cleddyf am 8:15 ac yn cerdded neu dod ar sgwter i'r ysgol, mae'r bws yn tyfu mewn nifer ar y daith! Mae'r ymgyrch yn sicr yn lleihau traffig o amgylch yr ysgol yn y bore ac mae'r plant a'r rhieni yn cadw'n heini a chael hwyl a sgwrs ar y ffordd i'r ysgol.

# Dwy noson fythgofiadwy yn Neuadd Gymuned Ysgol Penisarwaun

Cynhaliwyd un o'r nosweithiau bythgofiadwy ar nos Wener, 15fed Tachwedd am 7 yr hwyr yn y Neuadd Gymuned a'r noswaith fythgofiadwy arall ar nos Lun, 2ail Rhagfyr am 7 yr hwyr.

Ar nos Wener, 15fed Tachwedd manteisiodd Eurgain Haf ar y cyfle i ddiolch i Phyllis Elis, Cadeirydd Eisteddfod Bentref Penisarwaun am drefnu noson gymdeithasol i'w llongyfarch ar ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Tâf gyda'i nofel, *Y Morfarch Arian*. Gyda'r Neuadd Gymuned yn orlawn, bu'n gyfle i Eurgain Haf gael diolch i'w holl ddylanwadau – ar yr aelwyd yn Sycharth, yn addysgol yn Ysgol Tan y Coed ac Ysgol Brynrefail a chymdeithasol. Diolch o galon am y llechen hyfryd gydag englyn Mererid Hopwood wedi'i hysgythru arni.

Diolch i Gôr John Eifion a Marina gydag Anest yn cyfeilio, am eu datganiad penigamp o'r gân 'Cân Yn Ofer.' Bydd y cymdeithasu dros baned wedyn yn aros yn y cof am amser maith, a braf oedd gweld Eurgain yng nghwmni ei theulu a ffrindiau i ddathlu ei llwyddiant arbennig.

Ar nos Lun, 2ail Rhagfyr am 7 yr hwyr yn y Neuadd Gymuned, cynhaliwyd noson i lansio hunangofiant Haf Thomas, Tre Ceiri, Llanrug, *O na fyddai'n haf o hyd!* a golygydd y gyfrol, y Prifardd Ifor ap Glyn oedd yn arwain y noson.

Gyda'r neuadd dan ei sang, cafwyd noson o hel atgofion, "noson Haf," a'i hymateb hi am atgofion amhrisiadwy, gyda'r Prifardd a hithau yn deall ei gilydd i'r dim! Cafwyd darlleniadau gogleisiol o'r hunangofiant gan Jeni Lyn Morris a Lowri Ifor.

Difyr a doniol oedd gwrando ar Haf, yn ei dull dihafal ei hun, yn croniclo'r rhestr gweithgareddau amrywiol tuag at y gwahanol elusennau. Cafwyd mwynhad yn gwrando ar Gôr Law yn Llaw dan arweiniad Anwen Edwards. Bu datganiad Annette o'r gân Gymreig "O Na fyddai'n Haf o Hyd" ar y piano yn wefreiddiol, gyda bonllef o gymeradwyaeth gan y gynulleidfa. Cyn y baned a'r mins pei, fe ymunodd y gynulleidfa a Haf gyda'r côr i ganu"Calon Lân yn llawn daioni."

Yng nghefn y llyfr mae rhestr hirfaith o ymgyrchoedd anhygoel o £58,259, a bydd cyfran o elw'r llyfr yn mynd at elusen leol. Yn y llyfr, "mae Haf yn adrodd ei stori ei hun ac mae'n stori gwerth ei rhannu." Mynegodd Haf ei diolch i bawb am noson i'w chofio.

Dyma gwpled a ysgrifenwyd gan Ifor yn arbennig i Haf:
'Onid braf cael Haf o hyd
yn enfys dros ein blinfyd?'

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



# Ar ben arall i'r lein

Fel mae'r drws yn cau ar 2024 mae'n rhaid edrych dros y gorwel am 2025, a chael golwg bositif ar y flwyddyn sydd o'n blaen.

Mae'n rhaid cyfaddef nad oedd 2024 yn flwyddyn y medrid deud amdani, 'Wel, dyna dymor da', gan mai, mewn difrif, siomedig dros ben y bu pethau cyn belled â bod yr eog a'r gwyniadau yn y cwestiwn. Mae llawer o resymau am hyn, ac rydym wedi eu trafod ar hyd y flwyddyn a fu. Yn sicr, bydd mwy i'w ddweud am hyn dros y misoedd sydd i ddod. Ond ble roedd yna siomedigaeth, mi gafwyd hefyd gryn lawenydd ar ein llynnoedd, heblaw wrth gwrs am Lyn Padarn, sy'n dal â'i broblemau enfawr. Unwaith eto, bydd mwy am hyn yn y flwyddyn newydd.

Y seren fwyaf disglair o'r holl ddyfroedd yw Llyn y Dywarchen, gyda'i ddisgyblion yn dod o bob rhan o'r deyrnas. Mae hyn i gyd gyda diolch i'r criw bach gweithgar sy'n gofalu am y lle ac yn sicrhau fod cyflenwad o bysgod yn cael ei archebu a'i gludo o Ddeorfa Trawsfynydd. Mae'r lle'n llawer mwy hudolus i'r rhai ohonom sy'n credu yn y Tylwyth Teg! Maen nhw o gwmpas y lle ac yn amlwg yn eu campau i'r rhai sydd ar wefr i'w gweld. Onid T H Parry Williiams ddywedodd nad oedd yn credu yn y cyfryw rai – ond eu bod nhw yn bod!



Y Tylwyth ar lannau Dywarchen

Calonogol dros ben yw gallu adrodd am y diddordeb sydd o gwmpas yr hen le 'ma yn y 'sgota. Does dim dwywaith fod a wnelo atyniad Dywarchen â hyn, a'r ffaith hefyd mai pysgota pluen yn unig a ganiateir yno. Gan fod gan gynifer ddiddordeb yn y maes hwn, trefnwyd ar 27ain Tachwedd noson 'Cyflwyniad i Bysgota' yn y Ganolfan yn Llanberis. Noson ddifyr dros ben, a chyfle i gyfarfod â llawer; a gobeithio cawn ddenu nifer o aelodau newydd i'r gorlan. Bydd dilyniant i'r noson yn cael ei chynnal, eto yn Llanberis, am 6.30 nos Fawrth, 17eg Rhagfyr. Diolch i Dr Robin Parry, Gareth Jones, Bethesda a Stuart Woodward, Ceunant am drefnu a chynnal y gweithgareddau.



Plu Bill Walker

Noson arall sydd y tu cefn i ni oedd 12fed Rhagfyr, sef noson ein Pwyllgor Blynyddol yn yr Institiwt, Caernarfon. Cafwyd rhagflas yn yr *Eco* fis diwethaf trwy adroddiad blynyddol Dr Parry. Mae wrth ei fodd yn paratoi'r daflen! Diolch i ti Robin. O'r materion i'w trafod, doedd dim newidiadau ar gyfer y tymor i ddod, a dim codi ar y prisiau. Yr unig bwynt i'w nodi yw pris tocynnau ieuenctid: dim ond £20 am y tymor i rai i 12–17 mlwydd oed, sy'n llai na phris diwrnod i ymwelwyr! Cefnogwch yr achos a chodi'r drwydded! Cofiwch hefyd fod rhai dan 12 oed yn cael 'sgota'n ddi-dâl. (Mae rhai rheolau ynghlwm wrth yr oedran iau.)

Fe gyflwynwyd tlysau eleni fel a ganlyn:

Tlws Tommy Lovell am wneud tipyn o waith ar ran y Gymdeithas – Huw P  Hughes, Bethel.

Tarian W J Williams am yr eog trymaf – Stuart Woodward, Ceunant.

Tarian J V Evans, yn cynnwys casgliad o blu arbennig wedi eu clymu gan Bill Walker, Gresford am y gwyniedyn trymaf – Stuart Woodward, Ceunant.

Fel arfer ar drothwy'r flwyddyn newydd, mi fyddaf yn rhoi fy nhri dymunaid am y flwyddyn i ddod. Felly, dyma nhw. Gyda'r blynyddoedd yn gwibio heibio, y dymuniad cyntaf wrth gwrs yw cael mwynhau iechyd i allu chwifio'r enwair, cerdded y glannau, rhwyfo'r llynnoedd (a thynnu mepsan bach tu ôl i'r gwch!)

Yr ail ddymuniad, gobeithio daw rhyw synnwyr i weithredoedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac iddynt ddod allan o'u cragen rwystredig a chydweithio gyda diddordebau lleol i atal y dirywiad sydd yn ein pysgodfeydd. Rhan fawr o hyn fuasai rhoi terfyn ar yr arllwysiadau o garthffos sy'n llifo'n ddi baid i'r dyfroedd.

A'r trydydd dymuniad ydi cael



Stuart a Gareth wrth y fainc glymu yn Llanberis

Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru i gydweithio â'r Gymdeithas er budd ein holl ddyforedd. Sgwn i be fyddai ymateb y Comisiwn Elusennau i'w ddull o weithredu yn y fro hon?

Wrth orffen am y flwyddyn, dymunaf i chi oll Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lewyrchus dros ben.

**Huw Price Hughes**




## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**

Gwasanaethau'r Nadolig a mis Ionawr:

Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24, 11pm - Cymun Bendigaid
29 Rhagfyr, 9:30am - Cymun Bendigaid

5 Ionawr,   9:30am - Boreol Weddi
12 Ionawr,   9:30am - Boreol Weddi
19 Ionawr,   9:30am - Boreol Weddi
26 Ionawr,   9:30am - Cymun Bendigaid

Hefyd, cynhelir gwasanaeth bob bore Mawrth am 9:30am

# Garddio

## IONAWR

Bu diwedd 2024 yn wyntog, gwlyb ond ddim mor oer a hynny (os na fydd pethau wedi newid ar ôl i mi deipio hwn, ddechrau mis Rhagfyr). Bu'r mynyddoedd megis Yr Wyddfa, Eilio, Moel Cynghorion a'r Carneddau'n wyn - ond yn ôl yr hen bobl golyga eira cynnar ei fod yn 'erthylu'r gaeaf'. Yr unig gwestiwn sydd gen i felly yw beth yw 'cynnar' o ran eira ar y topiau? Amser a ddengys debyg.

Os bydd hi'n oer a rhewllyd, ceisiwch roi cysgod i'ch planhigion mwyaf tyner neu rhowch orchudd drostynt, gan groesi bysedd na fydd y gwynt yn eu gwasgaru hyd y fro ac na ddaw'r bwysfil o'r dwyrain yn ei ôl.

Cofiwch ddal ati i fwydo'r adar, yn enwedig os gawn ni gyfnod rhewllyd. Mae'n bwysig hefyd i sicrhau bod dŵr glan ar eu cyfer, bydd angen dadmer dalwyr dŵr, ben bore os ydy wedi rhewi ac ail lenwi efo dwr cynnes efallai yn ystod y dydd.

Os ydy hi'n rhy oer i fentro allan i'r ardd bachwch ar y cyfle i gynllunio a breuddwydio am beth allwch eu plannu o ran blodau a llysiau yn 2025!

Erbyn hyn rydw i wedi llwyddo i gadw dyddiadur garddio a natur am y drydedd flwyddyn. Weithiau mi fydda'i wedi anghofio ac yn ei chael yn anodd mynd yn ôl i gofio be wnes i'n ystod yr wythnos. Un peth diddorol ddiwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr yw ein bod wedi gweld un neu ddau o farcutiaid coch o gwmpas! Gobeithio'n wir y bydd hynny'n parhau ac yn digwydd yn amlach yn 2025. Yn anffodus dydw i dal ddim wedi llwyddo i greu unrhyw fath o dabl o pryd a beth sy'n digwydd ym myd natur, yn yr ardd a thu hwnt e.e. pryd mae'r eirlys gyntaf yn dod i'r wyneb, pryd glywsom ni'r gog am y tro cyntaf, pryd welsom ni wennol ayyb.

Fuodd hi ddim yn flwyddyn arbennig o dda i lysiau, heblaw letys a rhuddygl, gadwodd ni mewn salad am wythnosau drwy'r haf a dechrau'r hydref. Mi fues i'n casglu ciwcymbrau a thomatos tan mis Tachwedd ac yn ceisio cochi'r rhai gwyrdd mewn bagiau papur mewn cwpwrdd, gyda pheth llwyddiant. Roedd y *chillies* fodd bynnag yn anobeithiol - mae'n debyg oherwydd y tywydd oer. Mi blannais i'r rhai fu'n llwyddiant yn y gorffennol sef Chillid de Cayenne. Mi wnaethon nhw egino a thyfu yn y tŷ gwydr ond mi dyfon nhw'n hir a choesog. Daeth blodau ymhen hir a hwyr ond yn rhy hwyr i dyfu unrhyw fath o ffrwyth defnyddiol ac yn sicr doedd dim gobaith cael yr un coch. O leiaf mae gen i rai'n y rhewgell o hyd…

Mi ddaeth yna foron a phanas ar ol hau sawl gwaith, ond bach yw'r cnwd eleni, er yn flasus a ddaeth na'r un fitrwdan goch, diolch byth bod modd eu prynu'n lleol mewn siopau fferm. Ar hyn o bryd mae gen i ysgalldail yr enfys (*rainbow chard*) mewn twbyn sy'n barod i'w bwyta mewn *stir fry* ac mi ydw i wedi mentro plannu nionod sydd i fod i oroesi'r gaeaf, sydd wedi taflu dail, felly croesi bysedd y gwnawn nhw ddal ati. *Mae* yma gennin a *cavolo nero* yn y *raised beds*, sydd, er yn fach, yn ddigon i gael ambell i bryd. Mae'r garlleg dyfais i llynedd, eisoes wedi eu plannu, efallai eu bod yn llai na'r rhai gewch chi mewn archfarchnad ond maent yn hynod o flasus. Doedd y tatws *Pink Fir Apple* ddim yn wych eleni, cnwd bach ac felly fyddai ddim yn eu tyfu eto. Mi fydd raid i mi feddwl yn galed dros pa fath o datws cynnar fyddai'n eu tyfu mewn twb ac yn yr ardd yn 2025, gan nad oes gen i fawr o le.



Mae'r ddau fath o *chrysanthemums* yn y tŷ gwydr ac mewn potiau yn yr ardd (does gen i ddim lle i'w plannu yn yr ardd) wedi bod yn hyfryd. A dwi'n mawr obeithio y bydd Sion Corn wedi gwrando a chael gafael ar lyfr ar sut i'w tyfu welais i mewn cylchgrawn garddio'n ddiweddar…. Gobeithio fod ganddo amser i ddarllen Eco'r Wyddfa felly…

**Tasgau**

1. Pan fydd rhialtwch y Nadolig drosodd, gallwch ail-gylchu eich coedan Nadolig. Os ydach chi'n talu am wasanaeth y gwasanaeth bin brown i waredu gwastraff yr ardd gallwch ei thorri a'i rhoi yn hwnnw, er bydd yn rhaid i chi ddisgwyl am gasgliad mis Chwefror 2025 i'r bin gael ei wagio (a thalu ffi 2025 er mwyn cael gwagio'r bin brown bob pythefnos o Chwefror hyd at wythnos gyntaf Rhagfyr 2025). Os nad ydach am ddisgwyl cyhyd â hynny gallwch fynd â'ch coeden i unrhyw un o ganolfanau ailgylchu Gwynedd, gan gofio bod yn rhaid archebu amser penodol i wneud hynny ymlaen llaw. Fel arall gallwch greu taenfa (*mulch*) drwy dorri'r brigau a'u malu neu eu torri'n ddarnau bach a'u rhoi mewn bag bin du neu hen fin. Gadewch iddynt bydru mewn congl gysgodol a llaith, fel y byddech efo deilbridd, ac ymhen rhwng chwech a deuddeg mis mi fyddwch wedi gwneud taenfa hynod ddefnyddiol i blanhigion eich gardd. Ffordd arall yw adeiladu gwesty i bryfetach yr ardd trwy dorri'r brigau'n ddarnau llai a'u rhoi'n bentwr mewn congl gysgodol neu wrth ymyl pwll dŵr. A beth am y bonyn heb frigau? Wel gallwch ei droi'n bolyn ffens neu ei lifio'n rhannau llai i greu ymyl taclus i lwybr. Gall hyn weithio'n dda o dan goed i greu effaith coedwigaidd - a hynny heb gostio'r un ffadan beni i chi!
2. Daliwch ati i gadw'ch potiau gaeaf yn daclus drwy dorri pennau unrhyw flodau sydd wedi marw a gwaredwch unrhyw ddail sydd wedi melynu. Mae gen i focs ffenast wrth y drws ffrynt sydd yng nghysgod y tŷ ac felly angen ei ddyfrio o bryd i'w gilydd, hyd yn oed os ydy wedi tresio bwrw am ddyddiau. Felly tsieciwch os yw pridd cynhwysyddion yng nghysgod y tŷ yn sych o bryd i'w gilydd a dyfriwch fel bo'r angen. Gallwch hefyd roi dŵr efo ychydig o gwrtaith gwymon ynddo (cymysgedd wan) i roi hwb i blanhigion a chadw'ch sioe o flodau am ychydig yn hirach.
3. Cadwch lygaid ar eich llwybrau, decking, patio gan eu bod yn gallu bod yn llithrig os yw algae neu fwsog yn hel arnynt. Wynebau llyfn concrid, pren neu gerrig pafin yw'r gwaethaf ond gallwch eu glanhau gyda gwahanol hylifau glanhau pwrpasol, neu ddefnyddio '*pressure washer'* os oes ganddoch un, neu gallwch logi un am y dydd am bris rhesymol (oddeutu £30 y dydd). Mae'r llwybrau'n fwy tebygol o droi'n wyrdd os oes coed uwchben, felly torrwch unrhyw ganghennau er mwyn gadael golau'r haul i mewn. Byddwch ofalus, allwch chi ddim garddio'n hawdd wedi brifo!



4. Ar y llaw arall mae'n talu weithiau i beidio a bod yn rhy daclus yn yr ardd. Gall dail a man frigau warchod planhigion rhag yr oerni a rhoi hafan i bryfetach aeafgysgu. Ond, ac mae yna ond bob tro, os ydy'r deunydd planigion marw'n gorchuddio'ch bylbiau mae'n syniad da i afael yn y siswrn neu'r tociwr (*secateurs*) a chlirio dipyn ar y borderi. Byddwch wedyn yn gallu gwerthfawrogi harddwch yr eirlysiau, cennin pedr neu'r gelleseg(*iris*) bychain



5. Peidiwch â cherdded ar y lawnt os ydy wedi bwrw eira neu'n rhewi.
6. Os gawn ni dywydd braf (heb fawr o wynt) agorwch ffenestri eich tŷ gwydr. Cofiwch eu cau pan yw'n dechrau nosi.
7. Gallwch blannu unrhyw blanhigyn prennaidd gwreidd-noeth (*bare-rooted*) yn ystod y mis hwn, os nad yw'r pridd wedi rhewi. Bydd ychwanegu peledi *mychorrhizal funghi* i'r twll yn eu helpu i ffurfio gwreiddiau a thyfu'n blanhigyn iach.

Daliwch ati i arddio a mwynhau bod allan yn yr awyr iach.
Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd! **Rhosyn Mynydd**

# Enwau coll

Mae'n syndod faint o enwau sydd wedi eu colli neu wedi eu newid dros y blynyddoedd. Ac nid yn unig enwau tai sy'n perthyn i'r categori hwn. Diflannodd enwau am y tirwedd ac enwau caeau yn ychwanegol. Yn ddiweddar, deuthum ar draws enw nad oeddwn erioed wedi ei weld yn ysgrifenedig nac erioed wedi ei glywed ar lafar.

***Llidiart Llain y delyn***

Yn rhyfedd iawn, mae'n cysylltu tri o feirdd gyda'r mwyaf enwog yng Nghymru, a'r tri ohonynt â rhyw gysylltiad â bro'r *Eco*.



**Afon Cegin ger Ynys Iago**

Ar y dydd olaf ond un o fis Mawrth 1822, bu farw Dafydd Ddu Eryri wrth iddo deithio'n ôl i'w gartref yn Llanrug o Fangor. Roedd wedi bod yn cyfarfod â chyfeillion llengar, ac o bosib wedi cael dropyn yn ormod i'w yfed. Wrth groesi afon Cegin ar y llwybr o Ynys Iago am Ddinas Dinorwig, llithrodd ar gerrig y rhyd, disgyn i'r afon a boddi. Cafwyd ei gorff mewn rhyw ddwy droedfedd o ddŵr. Bu cryn alaru ar ei ôl, er nad oedd ei hen elyn J. W. Pritchard, Plas-y-brain, Llanbedr-goch mor garedig, gan adrodd yn ddigon sbeitlyd: *"Darfu ei awen … mewn dŵr oer wedi iddo roi eithaf cynnig i daflu ei hun i safn Angau lawer gwaith a llond ei safn o ddiodydd poethion, ond dŵr oer a wnaeth y tro..."*

Bedwar ugain o flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd R. Williams Parry yn athro yn yr hen Ysgol Brynrefail. Mae'n bosib mai dyma pryd yr ysgrifennodd y soned 'Ymson ynghylch Amser':

"Hon ydyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr
A foddodd Ddafydd Ddu. Mae pont yn awr
Lle roedd y rhyd a daflodd yr hen ŵr
I'r ffrydlif fach a thragwyddoldeb mawr ..."

A dyna ddau o'r tri bardd. Cynan yw'r trydydd, a chanddo mae'n debyg lai o gysylltiad â'n bro na'r ddau arall. Ond yr oedd yn cynnal dosbarthiadau nos yn Neiniolen yn niwedd y 1960'au, ac yr oeddwn innau'n eu mynychu. Yn 1969, yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn y Fflint, traddododd Cynan ddarlith i Gymdeithas y Cymmrodorion – 'Tad Beirdd Cymru' – am Ddafydd Ddu Eryri. Cyhoeddwyd y ddarlith honno yn Nhrafodion Cymdeithas y Cymmrodorion yn 1970 ( a Chynan wedi marw ym mis Ionawr y flwyddyn honno).

Yn y ddarlith, mae'n son am R. Williams Parry yn cyfansoddi'r soned ac am yr afon ble boddodd Dafydd Ddu. *"Ar y giat sydd ar y drum, sef Llidiart Llain-y-delyn, uwchlaw Ffynnon Cegin Arthur, y cyfansoddodd hi, meddai*..." Anodd gwybod a ddywedodd Williams Parry hyn wrth Cynan, yntau a oedd Cynan yn dyfynnu o ffynhonnell arall.

Dyna leoli'n fras ble roedd Llidiart Llain-y-delyn – rhywle ar y tir uwchben Ffynnon Cegin Arthur – sef Dinas Dinorwig, neu'r fraich sy'n ymestyn o'r copa i lawr am ffermydd Tan y dderwen, Bach Riffri ac afon Cegin ei hun. Yn rhai o arolygon cynnar Stad y Faenol, daw'r enw Cae Llidiard i'r amlwg, rhywle ar dir fferm Cae Hob, sydd hefyd yn ymestyn i fyny'r llethr am Ddinas Dinorwig. Ydi'r enw'n dal i fodoli? *'Ar y giat'* y cyfansoddwyd y soned yn ôl yr awdur ei hun. Ond ble roedd y giat honno – ai giat yn arwain i gae oedd hi neu ai giat ar draws llwybr troed oedd hi? Pwy a ŵyr bellach? Ond byddai'n ddiddorol cael gwybod gan unrhyw un a glywodd am y llidiart neu am Lain-y-delyn.

***Llwyn Tŷ'r Geifr***

Deirgwaith yn unig y gwelais yr enw hwn ar unrhyw ddogfen hefyd, ond gwn ei fod ar dir Stad Glynllifon yng Nglyn Rhonwy, ac o fewn hen ffiniau plwyf Llanrug. 'Llwyn tŷ'r geifr' yw'r enw sy'n ymddangos yng Nghyfrifiadau 1851 ac 1861, ond erbyn 1871, 'Llwyndu'r geifr' a gofnodir.

Mae'n bosib mai dyma'r adfail a welir yn y llun. Fe'i ceir ar y dde, yn syth wedi croesi afon y Glyn wrth ddringo am y Clegir. Gan y diweddar Gwilym Roberts, Llanberis y cefais y wybodaeth – arbenigwr ar hanes y Clegir. A'r rheswm pam fod yr enw wedi aros yn y cof yw'r stori ddiddorol a adroddodd Gwilym wrthyf am yr adfail. Roedd ganddo gi defaid a'i dilynai i bobman; ond roedd y ci'n gwrthod yn bendant â mynd yn agos i'r adfail, waeth o ba gyfeiriad bynnag y ceisiai Gwilym fynd ato. Y goel gyffredin yw bod cŵn yn gallu synhwyro fod ysbryd yn bodoli mewn ambell fan. Tybed ai dyna'r rheswm pam nad oedd y ci defaid yn fodlon mynd yn agos at Lwyn tŷ'r geifr? Oes unrhyw un arall o'r darllenwyr wedi clywed fod ysbryd yn bodoli yn yr adfail hwn? Rhowch wybod.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad am agweddau o hanes lleol y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA. Ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com





**Ai dyma adfeilion Llwyn Tŷ'r geifr?**




**Codi Arian i Ward Alaw**

# Codi Arian i Ward Alaw

Bu cyngerdd Te, Hufen a Chân yn Eglwys Sant Padarn ym mis Medi i godi arian ar gyfer Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Casglwyd £4,100. Hoffai Ann Parry ddiolch i'r artistiaid i gyd sef, Côr Law yn Llaw, Dylan a Neil, Annette Bryn Pari a Twm Tudor. Diolch hefyd i bawb oedd wedi cyfrannu ym mhob ffordd at lwyddiant y diwrnod, ac i Fanc HSBC a phwyllgor Y Ganolfan, Llanberis am eu cyfraniadau hael at yr achos.

# Mrs Lloyd-Williams

## gan Mois

Carrie, fy niweddar chwaer, glywais yn adrodd yr hanes bach yma am Mrs Lloyd-Williams, gwraig go bwysig oedd yn byw yn y Waunfawr yn ystod y 1940 au.

Un o Gaergybi oedd Mrs Lloyd-Williams yn wreiddol. Roedd Doctor Lloyd-Williams ei gŵr yn frodor o'r Weun ac wedi bod mewn practis yn Harley Street, Llundain am flynyddoedd ac wedi dod adre i ymddeol i'w hen gartref, Bryn Meredydd, yn y Weun. Byddai Mrs Lloyd-Williams yn gwisgo'n debyg iawn i'r hen Queen Mary, gyda het fach gron a dillad llaes crand oedd wedi bod yn ffasiynol iawn ar un amser. Er mai Cymraes oedd hi, yn Saesneg y siaradai bob amser, '*I am a trained professional singer, you know!*' fel byddai'n hoff o ddweud.

Cofiaf i mam fy anfon i siop bwtsiar Dic Tan'rallt i nôl tamed o gig, a phwy oedd yno wrth y cownter ond Mrs Lloyd-Williams. Synnu clywed Dic yn gofyn iddi, 'Wel, nghariad i, be gâi wneud i chi heddiw?' Deud 'nghariad i' wrth Mrs Lloyd-Williams? 'Be 'dach chi'n feddwl o hwn, nghariad i?' medda Dic wedyn wrth ddangos darn o bîff iddi, a hitha'n ateb yn Gymraeg, 'O yes, neis iawn, Richard. Faint ydi hwnna?" A Dic yn deud y pris.

Mem Williams oedd yr howsgipar i'r Doctor a Mrs Lloyd-Williams. Mae'n debyg fod Mem wedi bod yn gweithio iddynt yn Llundain. Byddai Mem yn dod i'r Ysgol Sul, ac roedd yn arferiad yr adeg honno i ofyn i'r plant oedd yn cael gwersi piano ddewis emyn o'r daflen i ddechrau'r gwasanaeth. Fe ddaeth yn amser i minnau ddewis tôn ac fe ddewisais, 'Nag ildia demtasiwn', a chael eitha hwyl arni. Mae'n rhaid fod Mem wedi sôn wrth Mrs Lloyd-Williams mai fi oedd wrth y piano y pnawn hwnnw, a phan welais yr hen fusus wedyn, dyma hi'n deud, '*I heard that you played the piano very well in the Ysgol Sul on Sunday*'. 'Yes, Mrs Lloyd-Williams'. A phob tro y gwelwn hi wedyn, y cwestiwn oedd, *'How's the music coming on?'* Roedd arholiad piano rhyw dro, ac un o'r cwestiynau oedd, '*Who are the composers?*' Doedd gen i ddim syniad am rhyw bethau fel 'Study in G', ac roedd un o'r darnau yn Ffraneg. Dyma'r cwestiwn, *'Who composed that?'* a minnau'n dweud y peth cyntaf ddaeth i'm meddwl, 'Purcell'. *'Oh no, Purcell was an English composer.'*

Pan oeddem yn yr ysgol yng Nghaernarfon byddai rhyw 'Bangor Trio' yn dod yno i wneud 'recital'. Cosb, os buo un erioed! Dyn a dwy ddynes, a'r fyn yn debyg iawn i Ken Dodd; a fo fyddai'n cyflwyno'r rhaglen. Roedd un or merched yn canu'r piano a'r llall ar y cello, a'r dyn yn crafu'r ffidil; a phawb yn diodde ac yn griddfan wrth wrando arnynt. Un diwrnod, daeth Mrs Lloyd-Williams ataf a gofyn, '*Would you like to join us on Thursday night? We go every month to a recital in the University in Bangor. You'd be most welcome to come with us. We hire a taxi and leave at 6 o'clock.'* Roeddwn wedi dychryn am fy mywyd. Roedd y Bangor Trio yn dod i'm meddwl yn syth, a hynny heb sôn am fynd yno efo criw Mrs Lloyd-Williams! Gwneud ymddiheuriad ar unwaith, a deud fod gen i ormod o waith cartref. Tybed beth fuasai fy hanes petawn wedi mynd?

Pan oedd Mrs Lloyd-Williams yn wael, aeth mam i edrych amdani. Roedd yr hen greadures yn ei gwely ac yn bur wael. Un o'r pethau cyntaf ofynodd i mam oedd, '*How is Carrie?*' Meddai mam wrthyf, 'Dewcs, mae ganddi hi rhyw fyd efo chdi o hyd!'

Pan fyddai drama'n cael ei hactio yn y festri, i Bryn Meredydd fyddai'r trefnwyr yn mynd i gael benthyg dillad hen ffasiwn. Hefyd, byddai gan Elin Griffith ddillad go grand. Ond doedd pethau ddim yn rhy dda rhwng Elin a'i merch yng nghyfraith, ac fe losgodd honno'r dillad i gyd. Mae'n debyg y buasant yn werth tipyn heddiw.

# Merched Cymru yn Ewro 2025

Roedd Tîm Pêl-droed Merched Cymru'n chware yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon yn rownd derfynol y Gemau Ail-gyfle ar gyfer twrnamaint Ewro 2025 yn Y Swistir.

Mae hi wedi bod yn dipyn o daith yn yr ymgyrch. Cymru'n gorffen yn ddiguro ac ar frig Grŵp B4 yn erbyn Wcráin, Croatia a Kosovo er mwyn cyrraedd rownd gyn-derfynol y Gemau Ail-gyfle yn erbyn Slofacia. Yn y cymal cyntaf yn Poprad, Slofacia, collod Cymru 2-1: Slofacia yn sgorio 2 gôl ar ddechrau'r ail hanner, a Ffion Morgan yn rhwydo unig gôl Cymru cyn y diwedd. Ond roedd Cymru'n diolch i Olivia Clark yn y gôl am ein cadw yn y gêm. Yn yr ail gymal yng Nghaerdydd, Jess Fishlock yn sgorio dros Gymru. Ar ddiwedd y gêm, doedd dim yn gwahanu'r timau: 2-2 ar gyfanswm goliau! Yn yr amser ychwanegol, sgoriodd Ceri Holland dros Gymru ond bu rhaid aros i VAR ganiatau'r gôl. A Chymru'n ennill, 3-2, a chyrraedd rownd derfynol y Gemau Ail-gyfle.

Roedd rhediad Gweriniaeth Iwerddon i gyrraedd y gêm hon yn wahanol. Roedd y Gwyddelod wedi chwarae yn Grŵp A3 yn erbyn rhai o fawrion Ewrop: Ffrainc, Lloegr a Sweden, a'r gwahaniaeth safon yn amlwg ac Iwerddon yn ennill 1 gêm a cholli'r 5 gêm arall. Yn rownd gyn-derfynol y Gemau Ail-gyfle, enillwyd yn rhwydd yn erbyn Georgia, 9-0 ar gyfanswm goliau!

Roedd Iwerddon yn wynebu'r gemau yn erbyn Cymru gyda phrofiad o chwarae mewn twrnamaint, wedi bod yng Nghwpan y Byd yn Awstralia a Seland Newydd y llynedd. Yn y cymal cyntaf yng Nghaerdydd, roedd record o dorf i gêm merched yng Nghymru, gyda thros 16,000 yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Gyda'r naill dîm na'r llall wedi chwarae mewn Ewros o'r blaen roedd hi am fod yn gêm dynn, ac roedd hynny'n amlwg ar ddechrau'r gêm. Ond wedi 20 munud daeth gôl i Gymru: gwaith da ar yr ochor dde gan Gymru; Jess Fishlock yn croesi'r bêl i'r cwrt cosbi a Lily Woodham yn rhwydo ar y cynnig cyntaf wrth y postyn pellaf i roi Cymru ar y blaen. Daeth Iwerddon yn gyfartal cyn hanner amser gydag ergyd o 30 llath gan Ruesha Little John: y bêl yn mynd dros y golwr Clark gan daro'r trawst cyn taro Clark a mynd i'r rhwyd. Doedd dim llawer o gyfleoedd yn yr ail hanner. Ond roedd gan Gymru le i ddiolch i Clark: wedi gic gornel fer i Iwerddon, Katie McCabe yn croesi at y postyn pellaf a'r bêl yn cael ei phenio'n ôl i ganol y cwrt cosbi at Hayes, a honno efo lle i droi a chael ergyd at y gôl, ond Clark yn arbed yn wych i gadw'r sgôr yn gyfartal. Felly, 1-1 oedd y sgôr terfynol wedi'r cymal cyntaf, a phopeth i'w ennill yn yr ail gymal yn Nulyn.

Felly, taith dros y dŵr ar gyfer yr ail gymal, a dim byd yn gwahanu'r timau. Nid dyma'r tro cyntaf i'r ddau dîm gwrdd yn Nulyn eleni: roedd Cymru wedi ennill gêm gyfeillgar, 2-1, yn Stadiwm Tallaghat ym mis Chwefror. Ond yn Stadiwm Aviva o flaen torf gartref fwyaf y Gwyddelod - 25,000 - oedd yr ail gymal. Roedd rheolwr Cymru, Rhian Wilkinson, wedi gwneud dau newid i'r tîm o'r cymal cyntaf: Josie Green a Hannah Cain yn lle Ffion Morgan a Ceri Holland. Unwaith eto, gêm gorfforol oedd hi, gydag Iwerddon yn rheoli'r hanner cyntaf.

Wedi 22 munud, Denise O'Sullivan - gyda ergydiad o du allan i'r cwrt - yn taro'r trawst a Clark yn y gôl wedi ei churo. Dihangfa i Gymru. Munudau wedyn, cyfle o bellter gan Katie McCabe, a'r ergyd fymryn heibio'r postyn. Roedd Iwerddon yn curo ar y drws a daeth cyfle arall iddynt: gwaith da ar yr asgell chwith a'r bêl yn canfod Russell yn y cwrt a hi'n rhoi ffugiad bach ond yr ergyd yn cael ei harbed yn wych gan Clark, a Payne yn methu'r targed gyda'r ail gynnig. Wedi hanner awr, daeth cyfle i Gymru ymosod a chafwyd cic rydd mewn safle da, ond ergyd Lily Woodham yn cael ei harbed yn dda gan Brosnan yn y gôl i'r Iwerddon. O'r gic gornel, daeth cyfle i Rhiannon Roberts droi ac ergydio, ond cafwyd arbediad arall gan golwr Iwerddon. Di-sgôr felly ar yr egwyl, ac er i Gymru gael cyfnod da Iwerddon oedd wedi llwyr reoli'r hanner cyntaf.

Yr ail hanner yn dechrau, a chic rydd gynnar i Gymru wedi tacl ar Fishlock; ond y gic rydd yn dod i ddim. Ond wedi i'r bêl fynd allan am dafliad i Iwerddon, y ddyfarnwraig Marta Huerta de Aza yn oedi'r chwarae cyn mynd at y VAR. Rhaid dweud bod bach o ddryswch pam yn union oedd hyn yn digwydd. Wedi golwg ar y sgrin dyma'r Sbaenwraig yn dynodi cic o'r smotyn i Gymru am lawiad gan Patten yn y cwrt o'r gic rydd. Rhaid dweud ei fod yn benderfyniad hallt iawn ar Iwerddon. Ond cic o'r smotyn i Gymru, ac ymosodwr Caerlŷr, Hannah Cain, sydd ond newydd ddychwelyd o anaf drwg, yn ei chymryd. Cain yn gyrru Brosnan y ffordd anghywir gan roi Cymru ar y blaen, 1-0. Am foment! Ac fel yn y gêm gyn-derfynol, Cymru yn diolch i VAR. Roedd y gôl wedi ysgwyd yr Aviva, ac roedd Cymru'n trio gwrthymosod bob cyfle. Bu bron i Angharad James ddyblu'r fantais, ond yr ergyd gan y capten yn cael ei harbed gan y golwr.

Wedi awr o chwarae, daeth eilyddion i Gymru: Hannah Cain a Jess Fishlock yn mynd oddi ar y cae, a Carrie Jones a Ffion Morgan yn dod ymlaen. Bum munud wedi'r eilyddio, Cymru'n llwyddo i wneud 3 pas o gic gôl, a'r bêl yn canfod Carrie Jones, oedd yn gryfach na'r amddifynwraig ac yn mynd trwodd at y gôl, a'i hergyd isel o ymyl y cwrt yn canfod cornel isaf y rhwyd. Ymosodwraig Norrköping yn dyblu mantais Cymru, a hynny'n golygu y byddai raid i Iwerddon ymosod wedyn. Dim ond ergydion o bellter gawson nhw, ond wedi 85 munud daethon nhw nôl i mewn i'r gêm. Cic gornel o'r dde gan McCabe yn cyfarfod peniad Patten a'r cyfle yn cael ei glirio oddi ar y llinell gan Rhiannon Roberts, ond Patten yn rhwydo ar yr ail gynnig. 2-1, a 5 munud yn weddill ... a'r amser am anafiadau! A gyda'r cloc yn taro 90, cafodd 8 munud ychwanegol ei ddangos.

Roedd Iwerddon yn pwyso a thafliadau hir yr eilydd Megan Campbell yn achosi pob math o broblemau i Gymru. Ac am dafliad hir sydd ganddi! Roedd Cymru'n methu delio â'r tafliadau ond roedd Hayley Ladd yn y lle cywir i glirio ergydiad Hayes oddi ar y llinell. Yn dilyn cic gornel fer, cafwyd tacl bwysig ar Denise O'Sullivan gan Rhiannon Roberts, a'r bêl yn glanio'n garedig ar dop y rhwyd. Amddiffyn arwrol gan Gymru! Wedi 8 munud hir fe ddaeth chwiban y ddyfarnwraig i nodi moment hanesyddol i Gymru yn Nulyn. Buddugoliaeth o 2–1, a Chymru'n ennill o 3–2 ar gyfanswm goliau.

Roedd y dathliadau gan y merched a'r staff yn wych i'w gweld. Cymru'n cyrraedd Ewro 2025 i Ferched yn Y Swistir: y tro cyntaf erioed i dîm y Merched fod yn rowndiau terfynol un o'r prif gystadlaethau. Arbennig iawn wedi'r tor calon o golli yng ngemau Ail-gyfle Cwpan y Byd yn erbyn Y Swistir ddwy flynedd yn ôl! Y cylch wedi dod yn gyflawn. Am gamp i'r Merched gyrraedd Ewro 2025. Mae'r cyfan yn dangos pa mor bell mae gêm y merched wedi dod yn ei blaen. Lai na 10 mlynedd yn ôl, roedd torf o 300 yn unig yn eu gwylio mewn gêm yn erbyn Slofacia ym Mangor. Bryd hynny, dim ond uchafbwyntiau o'r goliau oedd i'w gweld ar y teledu. Erbyn hyn, torf o dros 16,000 yn Stadiwm Dinas Caerdydd a'r gemau i gyd yn fyw ar y teledu.

Felly taith i'r Swistir i'r Merched y flwyddyn nesaf. Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r Wasg mi fydd yr enwau wedi dod allan o'r het. Gyda Chymru ym mhot 4, mi allen nhw chwarae yn erbyn rhai o fawrion y gêm yn Ewrop. Cyfnod cyffrous iawn i Gymru, a chynhelir y twrnamaint yn Y Swistir fis Gorffennaf nesaf.

**Elgan Rhys Jones**


Peirianydd Carafan Teithiol
MD
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
BOSCH Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# CWIS 2024

**Gyda blwyddyn arall yn dirwyn i ben, beth am gael tro ar ein Cwis i weld faint rydych chi'n ei gofio am ddigwyddiadau chwaraeon y flwyddyn a fu.**

1. Pwy enillodd Ewro 2024?
2. Pwy ddaeth yn rheolwr newydd ar dîm pel-droed dynion Cymru?
3. Beth oedd enw ceffyl buddugol y Grand National?
4. Fe dorrodd Armand Duplantis record byd ar y *pole vault* yn y Gemau Olympaidd am yr uchder mwyaf. Ond pa wlad oedd o'n ei chynrychioli?
5. Sawl medal enillodd tim Prydain yn y Gemau Olympaidd?
6. Sawl gêm enillodd tim rygbi dynion Cymru eleni?
7. Pa sir yng Nghymru enillodd Gwpan Undydd Criced ym mis Medi?
8. Pa gamp wnaeth Louis Rees-Zammit droi ati'r flwyddyn yma?
9. Pa dîm o'r fro ddychwelodd i'r cae pêl-droed eleni?
10. Pwy enillodd Bencampwriaeth Dartiau'r Byd PDC ddechrau'r flwyddyn?
11. Fe hawliodd Merched Cymru eu lle yng nghystadleuaeth Ewro 2025. Ym mha wlad fydd y gemau'n cael eu cynnal?
12. Beth yw enw'r focswraig Gymraeg a ennillodd deitl gwregys y byd?
13. Pwy enillodd y Chwe Gwlad?
14. Pa ddau chwaraewr tenis gyhoeddodd eu bod yn ymddeol o'r gamp?
15. Faint o Gymry oedd yn cynrychioli Tîm Prydain yn y Gemau Olympaidd (y mwyaf erioed)?
16. Pwy enillodd Bencampwriaeth Snwcer y Byd?
17. Pwy oedd enillwyr Cwpan Cymru?
18. Ble oedd ras y Tour De France yn gorffen? (Cliw - Dim Paris.)
19. Pwy enillodd Bencampwriaeth Y Meistri (Golff)?
20. Sawl ras oedd yng nghalendr F1 eleni?

Gobeithio caiff pawb Nadolig Llawen iawn, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn arall gyffrous o chwaraeon!
**Elgan a Mared**

**Atebion ar waelod y dudalen**

## Atebion Cwis 2024

1. Sbaen
2. Craig Bellamy
3. I am Maximus
4. Sweden
5. 65
6. 0
7. Morgannwg
8. Pêl-Droed Americanaidd
9. Deiniolen
10. Luke Humphries
11. Y Swistir
12. Lauren Price
13. Iwerddon
14. Andy Murray a Rafael Nadal
15. 33
16. Kyren Wilson
17. Cei Conna
18. Nice.
19. Scottie Scheffler.
20. 24

ISSN 2516-7235

# Gwobrau Chwaraeon Gwynedd

Prin ddeufis yn ôl roedd yr *Eco* yn llongyfarch Gareth McGuinness o Lanrug ar ennill Pencampwriaeth Beicio'r Byd yn y categori dros 50 oed. Roedd y llwyddiant hwnnw'n ddigon iddo ennill teitl Athletwr Hŷn y Flwyddyn yng nghyfarfod gwobrwyo Chwaraeon Gwynedd yn ddiweddar.



**Catrin Beech yn derbyn ei gwobr Gwirfoddolwr Ifanc.**

Mae Catrin Beech, hefyd o Lanrug, gryn dipyn yn iau ac yn astudio ym Mhrifysgol Lerpwl ar hyn o bryd, ond mae'n parhau i wneud llawer o waith gwirfoddol yn yr ardal. Yn yr un cyfarfod gwobrwyo, enillodd hithau'r drydedd wobr yng nghategori Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn. Dechreuodd ar y gwaith gwirfoddol tra'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, a bu'n cynorthwyo gyda Ras 5k Llanrug a Marathon Eryri. Mae'n hyfforddi gydag Academi Pêl-droed Nathan Craig a hefyd gydag Academi Pêl-droed Tref Caernarfon. Mae'n fraint, meddai, cael dysgu'r sgiliau sylfaenol i fechgyn a genethod ifanc – yn enwedig yn safle'r gôl-geidwad.

Yn ôl ym mis Mehefin, derbyniodd dlws gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru mewn seremoni yng Nghaerdydd i wobrwyo goreuon y cynghreiriau pêl-droed cenedlaethol. Mae'n chwarae yn safle'r gôl-geidwad i Dim Pêl-droed Merched Y Felinheli yng Nghynghrair Gogledd Cymru – a hi enillodd y 'Golden Glove'.



**Teleri (chwith) ac Elain**

# Pel-droedwyr Addawol

Mae dwy o ddisgyblion Ysgol Brynrefail – Teleri Thomas o Lanberis ac Elain Dafydd Beech o Lanrug – wedi cael eu dewis i gynrychioli tim pêl-droed Ysgolion Uwchradd Gwynedd. Llongyfarchiadau mawr a phob llwyddiant i'r ddwy.